# Rhagair

Gorchymyn atgyfeirio yw'r ddedfryd gymunedol gyntaf mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd wedi troseddu yn ei chael. Maen nhw'n darparu cyfle perffaith i helpu pobl ifanc stopio eu hymddygiad tramgwyddus cyn iddo ddod yn arfer.

Maen nhw'n gyson yn fwy effeithiol na dedfrydau eraill, ond nid ydynt yn cael eu cyflwyno fel y'u bwriadwyd. Pe byddent, gallent fod hyd yn oed yn fwy effeithiol.

Yn ddiweddar fe gyhoeddom adroddiad arolygiad thematig yn archwilio sut mae'r ymchwil sefydledig ar leihau'r tebygolrwydd o berson ifanc yn aildroseddu yn cael ei roi ar waith yn ymarferol. Mae elfennau tebyg pwysig yma; yn benodol, gwerth gwneud iawn (gwneud iawn i'r dioddefwr neu'r gymuned) a'r angen i ganolbwyntio ar helpu'r person ifanc i ail-ymgyfuno â'u cymuned, er enghraifft trwy sicrhau bod y person ifanc yn parhau gyda'u haddysg. Y cwestiwn perthnasol ar gyfer panel gorchymyn atgyfeirio yw: *beth allai achosi i'r person ifanc hwn stopio troseddu?*

Yn ein barn ni, mae angen i Dimau Troseddau Ieuenctid (YOTs) fynd yn ôl i'r egwyddorion sy'n tanategu gorchymyn atgyfeirio, a meddwl eto am y modd orau o gyflawni eu dyheadau polisi. Yn yr un modd, dylent ail-werthuso eu perthynas gyda'r gwirfoddolwyr sy'n llunio'r paneli sy'n cwrdd gyda'r bobl ifanc ac yn cytuno ar eu cynllun gweithredu. Fe welsom esiamplau pwerus o'r gwerth uchel mae pobl ifanc yn rhoi ar eu perthynas gyda gwirfoddolwyr, ond fe ddarganfuom fod gwirfoddolwyr yn aml yn cael eu cau mewn yn ormodol gan y Timau Troseddau Ieuenctid. Byddai'n helpu Timau Troseddau Ieuenctid a gwirfoddolwyr pe byddai'r cyfarwyddyd a gynhyrchir yn ganolog yn symlach, er mwyn pwysleisio'r daliadau sy'n ei danategu sef gwneud yn iawn, cyfiawnder adferol ac ail-ymgyfuno, a bod y rolau a chyfrifoldebau yn unol â'r rhain yn glir.

Fe welsom fod Timau Troseddau Ieuenctid yn ymrwymo i wneud gwaith da ac roedd gan bob un esiamplau o arfer da, gyda nifer ohonynt yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn. Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol i bawb sydd yn rhan o gyflwyno'r gorchmynion arwyddocaol hyn.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu'r trefniadau i gyflwyno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn falch o fod wedi cael y cyfle i rannu ein canfyddiadau gyda'r tîm adolygu. Gobeithiwn y byddant o gymorth.

**Y Fonesig Glenys Stacey**
**Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi**

**Gorffennaf 2016**

# Crynodeb o'r canfyddiadau

## Effeithiolrwydd gorchmynion atgyfeirio

Mae'r data a gyhoeddwyd yn dangos bod gorchmynion atgyfeirio yn gyson yn fwy effeithiol na dedfrydau eraill, oherwydd bod pobl ifanc sy'n cael gorchymyn atgyfeirio yn llai tebygol o aildroseddu na'r rhai sy'n cael mathau eraill o ddedfrydau. Mae hyn hyd yn oed ar ôl ystyried y ffaith bod y gorchmynion hyn yn cael eu rhoi'n aml i bobl ifanc am drosedd cyntaf, ac mae'r troseddau yn gyffredinol yn llai difrifol.

Mae hyn yn canu cloch gydag ymchwil sy'n dangos bod cyfiawnder adferol (ar gyfer troseddwyr ifanc a throseddwyr sy'n oedolion) yn gallu gostwng aildroseddu yn ogystal â chynyddu bodlonrwydd dioddefwyr. Fe ddarganfuom, fodd bynnag, nad oedd gorchmynion atgyfeirio yn cael eu cyflwyno'n dda bob tro, gan beryglu eu heffeithiolrwydd mewn achosion unigol.

Yn gyffredinol, fe welsom fod sylw annigonol yn cael ei roi yn lleol ac yn genedlaethol i sicrhau bod gorchmynion atgyfeirio yn cyflawni'u hamcanion.

## Dull cyson?

Fe ystyriom i ba raddau roedd cysondeb rhwng yr ardaloedd Timau Troseddau Ieuenctid gwahanol (YOT); pa mor dda mae'r gwaith yn cael ei gyflwyno ac a oedd canllawiau cenedlaethol yn cael eu dilyn.

Ar gyfer yr agweddau hynny o'r gwaith sy'n berthnasol i bob math o ddedfryd - megis amddiffyn y cyhoedd, cynllunio achos ac ystyried amrywiaeth - roedd Timau Troseddau Ieuenctid yn gyffredinol yn perfformio'n dda. Roedd y gwaith hwn o leiaf cystal ac mor gyson mewn achosion gorchmynion atgyfeirio ac mewn mathau eraill o ddedfrydau. Ar adegau, roedd ansawdd yr arfer a welsom ar orchmynion atgyfeirio yn dda iawn.

Fe ddarganfuom fod Timau Troseddau Ieuenctid yn gyffredinol yn ymdrin yn gyson â gwaith orchmynion atgyfeirio yn gyffredinol, ond nid bob tro fel y bwriadwyd pan gyflwynwyd y gorchmynion yn y lle cyntaf. Roedd rhai o'u hamcanion wedi cael eu colli ar y ffordd.

Roedd ansawdd yr ymrwymiad rhwng paneli troseddwyr ieuenctid a phobl ifanc, i ddeall y niwed a oedd wedi cael ei achosi a chytuno ar sut i'w wneud yn iawn, yn amrywio'n fawr. Roedd elfennau'r cytundeb a gytunwyd rhwng y panel a'r person ifanc, yn sylfaenol, yn aml yn cael eu pennu ymlaen llaw gan y rheolwr achos, yn hytrach na bod yn ymateb i ymwneud y panel gyda'r person ifanc. Roedd cytundebau yn dueddol o ganolbwyntio ar ymyriadau yn gysylltiedig ag achosion uniongyrchol y troseddu, yn hytrach na dangos ymdrechion ystyrlon wedi'u teilwra i ddeall beth allai helpu'r person ifanc osgoi troseddu yn y dyfodol ac ail-ymgyfuno yn y gymuned. Nid oedd ffactorau allai helpu cefnogi ail-ymgyfuno - er enghraifft, gwelliannau mewn addysg neu newidiadau mewn ffordd o fyw - yn cael digon o flaenoriaeth. Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i ddatblygu a chyflwyno cynllun a oedd yn bersonol ac yn ystyrlon i'r person ifanc, gan esbonio'n glir beth oedd angen digwydd er mwyn lleihau eu tebygolrwydd o aildroseddu.

Nid oedd y cyfarwyddyd sydd ar gael yn ddefnyddiol gyda'r problemau hyn. Roedd y cyfarwyddyd yn rhy fanwl mewn rhannau, a braidd yn drwm ac yn anodd ei ddeall. Roedd nifer o setiau o gyfarwyddyd. Wrth eu darllen gyda'i gilydd, nid oedd yn glir er enghraifft, a ddylai'r panel fod yn rhydd i ddewis beth allai fod orau i'r person ifanc unigol ai peidio, neu gael eu cyfyngu gan ystod fwy cyfyng o opsiynau i ddewis o'u plith, fel oedd yr achos yn aml iawn. Roedd hyn yn mynd yn groes i'r egwyddorion y tu ôl i weithrediad y paneli. Yn fwyaf nodedig, roedd paneli yn teimlo wedi'u cyfyngu ac weithiau wedi'u cau mewn gan farn rhag benodedig rheolwyr achos y Timau Troseddau Ieuenctid; i'r graddau nad oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o reolaeth dros wneud penderfyniadau, ac yn aml roeddent yn teimlo bod dim awdurdod ganddynt.

Roedd ffactorau amgylcheddol, megis gosodiad ystafell, yn bwysig er mwyn cyflwyno paneli da; fodd bynnag, nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i'r rhain. Ar gyfer y rhagolygon gorau o lwyddiant, dylid gwneud y person ifanc yn gartrefol ac mewn sefyllfa i siarad yn agored, ac ymrwymo gyda'r panel.

Nid oedd gan bobl ifanc digon o gyfle i ddeall na dylanwadu ar argymhellion amdanynt cyn bod y rheini yn cael eu rhoi i'r panel, yn aml yn dod i wybod yr hyn oedd yn mynd i gael ei ddweud amdanynt yn syth cyn cyfarfod y panel.

Fe ddarganfuom anghysondebau gyda sut roedd y Timau Troseddau Ieuenctid yn ceisio cysylltu â dioddefwyr, sicrhau eu bod yn deall y cyfleoedd ar gael iddynt gan y gorchymyn atgyfeirio, ac i ba raddau maen nhw'n cymryd rhan mewn paneli.

Defnyddir cytundebau gorchymyn atgyfeirio dwys mewn rhai amgylchiadau yn unig (gweler pennod un) ond fe ddarganfuom, pan eu bod yn cael eu defnyddio, eu bod yn cael eu defnyddio'n dda. Roeddent yn gwyro pobl ifanc o'r ddalfa pan roedd hynny'n briodol.

Mae'n bwysig bod y cyfnod allweddol yn syth ar ôl y ddedfryd yn cael ei reoli'n dda, fel arall gellir colli'r symbyliad. Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i'r cyfnod tan i'r panel troseddau ieuenctid gwrdd i fonitro ac ysgogi pobl ifanc. Yn y cyfnod hwnnw o hyd at bedair wythnos, yn aml, dim ond un cyfarfod oedd yno rhwng y person ifanc a rheolwr achos y Tîm Troseddau Ieuenctid. Yn ein barn ni, roedd angen mwy.

### Adfer, gwneud iawn ac ail-ymgyfuno

Fe ystyriom i ba raddau roedd y tair egwyddor o adfer, gwneud iawn ac ail-ymgyfuno yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.

*Cyfiawnder adferol*

Yn gyffredinol, roedd gan y Timau Troseddau Ieuenctid ymrwymiad cryf at ddatblygu a defnyddio cyfiawnder adferol. Ar adegau, fodd bynnag, roedd dryswch o ran yn hyn a olygir gan gyfiawnder adferol.

Nid oedd digon o ddioddefwyr yn cymryd rhan mewn cyfiawnder adferol na'n cael budd o waith gorchmynion atgyfeirio. Pan roedd llais y dioddefwr yn cael ei glywed yn glir mewn paneli, fe ddarganfuom ei fod yn cael effaith, ond nid oedd hyn yn digwydd yn ddigon aml. Yn sail i hynny, fe ddarganfuom anghysondebau yn y graddau o ymrwymo â dioddefwyr, gyda'r Timau Troseddau Ieuenctid hynny a oedd yn ymdrechu fwyaf i ymrwymo dioddefwyr yn amlwg yn fwy llwyddiannus nag eraill. Roedd angen i'r cyswllt cyntaf gyda dioddefwyr fod yn fwy effeithiol, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn deall y buddion posib iddyn nhw, ac felly'n fwy tebygol o gymryd rhan.

*Gwneud iawn ac ail-ymgyfuno*

Mae gwneud yn iawn - yn syml, gwneud yn iawn i'r dioddefwr neu'r gymuned am y niwed a achoswyd gan y drosedd - yn gallu bod yn ddylanwad pwerus ar benderfyniad person ifanc i roi'r gorau i droseddu, a gall helpu'r dioddefwr i ddod i delerau gyda'u profiad hefyd. Fe welsom rhai esiamplau da o wneud yn iawn uniongyrchol, a gwneud yn iawn yn cefnogi ail-ymgyfuno i'r gymuned, ond yn gyffredinol, nid oedd digon o ystyriaeth a sylw yn cael ei roi i'r cyfleoedd a ddarperir gan wneud yn iawn.

Fe ddarganfuom nad oedd gan baneli digon o ddylanwad dros y math o waith gwneud iawn i'w wneud mewn achosion unigol. Roedd argymhellion, ac yna penderfyniadau, am waith gwneud yn iawn weithiau'n cael eu gwneud er cyfleuster y Tîm Troseddau Ieuenctid yn hytrach nag er mwyn beth allai weithio orau mewn achos unigol.

Yn yr un modd, roeddem yn teimlo y gellid gwneud defnydd mwy effeithiol o gyfryngau lleol ac eraill i gefnogi ail-ymgyfuno a dylanwadu barn gyhoeddus ar bobl ifanc sydd wedi troseddu. Mae

hon yn dechneg a ddefnyddir yn fwy aml mewn gwledydd eraill, er enghraifft, Unol Daleithiau America.

### Ymwneud gwirfoddolwyr

Fe ystyriom pa mor dda oedd ymwneud aelodau gwirfoddol y panel yn y broses gorchmynion atgyfeirio, beth yw eu heffaith, ac yn benodol, effeithiolrwydd y berthynas weithio rhwng aelodau gwirfoddol y panel a staff y Timau Troseddau Ieuenctid.

Roedd mwyafrif aelodau'r panel yn ganol oed a dosbarth canol. Mae risgiau gyda hyn (er enghraifft, bod eu barn ddim yn ddigon cyfoes) ond ble roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gymuned leol a effeithiwyd ar fwyaf gan droseddu, fe ddarganfuom eu bod yn gallu cael effaith sylweddol.

Fe ymatebodd y bobl ifanc yn dda i ymglymiad gwirfoddolwyr. Fe welsom esiamplau o berthnasau cadarnhaol mewn paneli troseddau ieuenctid rhwng pobl ifanc a gwirfoddolwyr unigol. Yn gyffredinol, fe welsom wirfoddolwyr a oedd yn gwbl ymrwymedig i'r gwaith gydag awydd i wneud gwahaniaeth.

Roedd perthnasau gwaith rhwng gwirfoddolwyr a gweithwyr y Timau Troseddau Ieuenctid, fodd bynnag, yn fwy amrywiol, gyda rhai tensiynau amlwg a oedd yn ymwneud â'r mater canolog o sut ddylai rôl y panel a staff y Tîm Troseddau Ieuenctid gydweddu ei gilydd, ac i ba raddau roedd y panel yn cael ei gefnogi a'i ganiatáu i ymgymryd â'r rôl yn llawn.

### Barn dedfrydwyr

Fe ystyriom farn ynadon a barnwyr o orchmynion atgyfeirio a'u hyder ynddynt.

Fe welsom fod gan ddedfrydwyr hyder yng ngwaith cyffredinol y Timau Troseddau Ieuenctid, ond roedd rhai yn ansicr am fanylion gorchmynion atgyfeirio. O ganlyniad, roeddent weithiau'n cael eu camddeall ac fe allai hyn effeithio ar eu hyder ynddynt. Roedd dedfrydwyr yn awyddus i dderbyn mwy o wybodaeth am orchmynion atgyfeirio yn gyffredinol, ac am ddysgu neu ganlyniadau o achosion unigol. Roedd angen i Dimau Troseddau Ieuenctid roi fwy o sylw i hyn.

Fe welsom ddiffyg cyffredinol o ddealltwriaeth am yr amgylchiadau dewisol pan allai gorchmynion atgyfeirio ychwanegol fod yn briodol, i'w defnyddio gan y Timau Troseddau Ieuenctid a dedfrydwyr. Byddai cyfarwyddyd pellach yn ddefnyddiol.

### Meysydd i'w gwella

Fe ystyriom pa agweddau o ymarfer oedd y prif flaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Rydym yn gwneud argymhelliad i wella'r cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer gweithredu gorchmynion atgyfeirio, gan gynnwys rhoi esboniad o rolau a chyfrifoldebau'r paneli a'r sawl sy'n eu cefnogi. Credwn y byddai egluro'r disgwyliadau hyn yn ddefnyddiol, ac y gallai arwain at baneli mwy effeithiol a fyddai'n gweithredu mewn modd a oedd yn cyd-fynd yn well â'r disgwyliadau gwreiddiol ar gyfer gorchmynion atgyfeirio. Awgrymwn fod y gofynion hyfforddiant hanfodol ar gyfer aelodau'r panel hefyd yn cael eu hadolygu. Mewn rhai ffyrdd, roeddent yn rhy benodol, ac nid oeddent yn adlewyrchu sut roedd angen i baneli weithio yn ymarferol. Roedd hyn yn cael ei gymhlethu oherwydd yn aml nid oedd yr oruchwyliaeth a'r gefnogaeth a roddir i wirfoddolwyr yn ddigon da.

Yn fwy cyffredinol, mae angen rhoi mwy o sylw i sicrhau bod gwaith gorchmynion atgyfeirio o ansawdd da ac yn gyson gyda'u hamcanion. Er mwyn i waith gorchmynion atgyfeirio weithio'n dda, mae angen ymrwymo'r person ifanc mewn modd adeiladol a chael dweud eu barn. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth a gallu gwneud sylw ar yr hyn sy'n cael ei ddweud amdanynt cyn ei bod yn rhy hwyr; cael digon o ddweud yng nghynnwys cytundebau a sicrhau bod y rhain yn glir ac yn ystyrlon iddynt. Mae angen i'r cytundebau helpu eu pwyntio tuag at ddyfodol rhag-gymdeithasol ble maen nhw wedi'u hail-ymgyfuno yn eu cymunedau. Dylai'r amgylchedd ble

cynhelir paneli fod yn ffafriol i ymglymiad effeithiol y dioddefwyr a'r bobl ifanc. Mae angen i sut defnyddir y cyfnod rhwng y ddedfryd a chyfarfod y panel gydnabod ei bwysigrwydd wrth sicrhau bod y ddedfryd yn dechrau mewn modd cadarnhaol. Roedd angen i wybodaeth bwysig am beth ddigwyddodd yn y panel fod ar gael i eraill sy'n gweithio ar yr achos, oherwydd gallai fod yn ddefnyddiol iddynt.

Yn olaf, er mwyn i'r gorchmynion atgyfeirio barhau i fod yn effeithiol fel dewis arall i'r ddalfa, ble fo'n briodol, mae angen talu mwy o sylw i sicrhau bod dedfrydwyr yn parhau i fod yn hyderus yn eu gweithrediad.

Amlinellir ein hargymhellion penodol ar dudalen nesaf yr adroddiad hwn.

### Arfer gorau

Fe geisiom adnabod esiamplau o arfer gorau er mwyn i eraill ddysgu ohonynt. Fe welsom sawl esiampl o arfer da yn y Timau Troseddau Ieuenctid unigol ac mewn achosion unigol, ac rydym yn darparu esiamplau trwy gydol yr adroddiad hwn.

ON: trwy gydol yr adroddiad hwn mae'r enwau a gyfeirir atynt yn yr esiamplau o arfer wedi cael eu haddasu i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

## Argymhellion

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:**

- sicrhau bod cyfarwyddyd statudol yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad hwn a bod cyfarwyddyd statudol, safonau cenedlaethol a chyfarwyddyd rheoli achos yn gyson gyda'i gilydd
- cynnal monitro a throsolwg cenedlaethol o gyflwyniad gorchmynion atgyfeirio er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion
- sicrhau bod gofynion hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a staff yn cefnogi sut cyflwynir y gwaith a chyrhaeddiad achrediad arfer gorau.

**Dylai Timau Troseddau Ieuenctid sicrhau bod:**

- gwaith ar orchmynion atgyfeirio o ansawdd da ac yn bodloni'u hamcanion
- rheolwyr achos a phaneli troseddau ieuenctid yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gyda dealltwriaeth, parch a chefnogaeth ar gyfer rolau ei gilydd
- trosolwg effeithiol o waith gorchymyn atgyfeirio yn cael ei darparu, gan gynnwys gwirfoddolwyr a phaneli troseddwyr ieuenctid
- gan bob dioddefwr hysbys gyfle amserol ac effeithiol gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol i dderbyn ymyrraeth adferol addas, gan gynnwys cael cynrychiolaeth yn y panel troseddau ieuenctid
- dedfrydwyr yn deall ac yn meddu ar hyder llawn yng ngorchmynion atgyfeirio a gwaith y paneli troseddau ieuenctid
- cyd-drafod da gyda phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn y cyfnod rhwng y ddedfryd a'r panel troseddau ieuenctid; gan gynnwys cyfle iddynt weld, deall a dylanwadau ar adroddiadau i baneli cyn iddynt gael eu cwblhau
- cytundebau gorchmynion atgyfeirio o ansawdd da; yn cael eu datblygu ar y cyd â'r person ifanc a'u bod yn ddealladwy iddynt
- amcanion mewn cytundebau gorchmynion atgyfeirio yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n pwyntio at ddyfodol cadarnhaol-gymdeithasol ac yn talu sylw i ail-ymgyfuno yn y gymuned
- yr hyn sy'n digwydd mewn cyfarfod panel yn cael ei rannu gydag eraill sydd angen gwybod
- lleoliadau'r cyfarfodydd paneli a sut mae'r ystafelloedd yn cael eu trefnu yn macsimeiddio'r tebygolrwydd o ymwneud effeithiol gan y dioddefwyr a'r bobl ifanc.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | **X** |
| **Crynodeb o'r canfyddiadau** | **X** |
| **Argymhellion** | **X** |
| **1. Cyflwyniad i orchmynion atgyfeirio** | **X** |
| **2. Diben, cwmpas a methodoleg yr arolygiad** | **X** |
| **3. Rheolaeth graidd achosion ac effeithiolrwydd** | **X** |
| **4. Y berthynas rhwng gweithwyr achos a phaneli** | **X** |
| **5. Paneli troseddau ieuenctid** | **X** |
| **6. Recriwtio, hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr** | **X** |
| **7. Rhan dioddefwyr mewn gwaith gorchmynion atgyfeirio** | **X** |
| **8. Adfer, gwneud iawn ac ail-ymgyfuno** | **X** |
| **9. Hyder dedfrydwyr** | **X** |
| **Diolchiadau** | **X** |
| **Atodiad 1 - Rôl yr arolygiaeth a chod ymarfer** | **X** |

# 1. Cyflwyniad i orchmynion atgyfeirio

Mae'r bennod hon yn amlinellu amcanion gorchmynion atgyfeirio, yn eu rhoi yng nghyd-destun opsiynau dedfrydu eraill ac yn disgrifio sut mae disgwyl iddynt weithredu.

1.1 Bellach y gorchymyn atgyfeirio yw'r gwarediad llys a ddefnyddir amlaf sy'n gofyn bod pobl ifanc yn gweithio gyda Thîm Troseddau Ieuenctid i fynd i'r afael â'u troseddu. Yn y flwyddyn i fis Mawrth 2015, rhoddwyd 12,039 gorchymyn atgyfeirio i bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, 10,653 gorchymyn adsefydlu ieuenctid, 2,837 dedfryd o garchar a 299 dedfryd arall megis gorchymyn gwneud yn iawn. Roedd 12,837 gwarediad nad oedd yn cynnwys gwaith gyda Thîm Troseddau Ieuenctid[1]. Roedd gorchmynion atgyfeirio yn cyfri am bron 48% o warediadau llys newydd a dderbyniwyd gan Dimau Troseddau Ieuenctid.

1.2 Cyflwynwyd y gorchymyn atgyfeirio yng Nghymru a Lloegr yn 2002, wedi cael ei greu yn *Neddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000.* Mae'n ddedfryd unigryw ar gyfer pobl ifanc sydd wedi pledio'n euog i un drosedd neu fwy, ac sydd o dan 18 mlwydd oed ar adeg y ddedfryd.

1.3 Ble mae'r person ifanc yn pledio'n euog i un drosedd neu fwy a'i fod heb gael ei dyfarnu'n euog o drosedd yn flaenorol, y gorchymyn atgyfeirio yw'r ddedfryd orfodol yn y mwyafrif o achosion, yn amodol ar gyfyngiadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys pan mae'r drosedd mor ddifrifol bod y llys yn cynnig gosod dedfryd o garchar neu mor fân ei fod yn cynnig rhyddhau'r achos. Yn dilyn newidiadau i *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015* mae ail orchymyn atgyfeirio hefyd ar gael fel gwarediad i'r llys dedfrydu pan mae'r person ifanc yn pledio'n euog i droseddu eto.

1.4 Gellir crynhoi prif nod y gorchymyn atgyfeirio fel: atal pobl ifanc rhag aildroseddu a darparu dull o gyfiawnder adferol i gyflawni hynny, sy'n cynnwys y dioddefwyr, o fewn cyd-destun cymunedol. Mae'r gymuned leol yn cael ei gynnwys trwy aelodau gwirfoddol y paneli troseddau ieuenctid. Eu rôl yw dal y person ifanc yn atebol am eu gweithredoedd (ond heb gynnal aildreial), yna trafod cytundeb gyda nhw. Mae'r cytundeb yn amlinellu beth fydd yn cael ei wneud i leihau'r ymddygiad tramgwyddus. Rhaid iddo gynnwys gweithgareddau gyda'r bwriad o wneud yn iawn i'r gymuned am y niwed a achoswyd, gan gynnwys i'r dioddefwr ble fo'n briodol. Dylai paneli weithredu yn ôl tair egwyddor graidd cyfiawnder adferol - cyfrifoldeb, gwneud yn iawn ac ail-ymgyfuno.

1.5 Ym mhob achos, y llys dedfrydu sy'n pennu hyd y gorchymyn (cyfnod cydymffurfio) yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd. Yna, cyfrifoldeb y panel yw hi i bennu lefel a natur y gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn atal y person ifanc rhag troseddu. I'w cefnogi i ymgymryd â'r rôl hon, mae'r panel yn derbyn adroddiad o'r Tîm Troseddau Ieuenctid a ddylai nodi'r ffactorau allweddol sy'n berthnasol i'r achos a'r raddfa ymyrraeth a argymhellir. Mae'r cyfnod cydymffurfio yn cychwyn pan gytunir ar y cytundeb, ac fel dylai hyn fel arfer fod o fewn 20 niwrnod gwaith o'r ddedfryd.

1.6 Mewn achosion sy'n agos i'r trothwy ar gyfer gosod dedfryd o garchar, ond ble allai gorchymyn atgyfeirio fod yn warediad priodol, er mwyn darparu opsiwn dedfrydu credadwy, efallai bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cynnig gorchymyn atgyfeirio gyda chytundeb dwys. Ble mae'r llys wedyn yn gwneud gorchymyn atgyfeirio, rhaid i'r panel wybod y ffactorau a'r disgwyliadau a gyflwynwyd ac unrhyw sylwadau a wnaethpwyd gan

---

[1] Ffynhonnell: Tabl 1.4 yn y ffeil Disposal_by_YOT.xls a dynnwyd o www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment-data/file/495711/local-level-data.zip

ddedfrydwyr. Dylai gwrdd i gytuno ar y cytundeb a rhoi'r gorchymyn ar waith gyda'r oedi byrraf posib.

1.7 Dylai dioddefwyr gael y cyfle i fynychu neu gael eu barn wedi'i gynrychioli mewn cyfarfod o'r panel.

1.8 Dylai'r panel gynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd, a chyfeirio'r person ifanc yn ôl i'r llys os oes diffyg cydymffurfiaeth gyda thelerau'r cytundeb neu wrthodiad i gytuno ar un.

1.9 Cyfrifoldeb y Tîm Troseddau Ieuenctid lleol yw cyflwyniad y gorchymyn atgyfeirio a rheolaeth y paneli troseddau ieuenctid.

1.10 O dan delerau *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974*, daw'r gollfarn i ben unwaith i'r gorchymyn gael ei ollwng neu fod unrhyw iawndal ategol wedi'i fodloni, os yw'n ddiweddarach. Gellir hefyd ei nodi mewn trafodion cyfreithiol yn y dyfodol a'i datgelu mewn rhai sefyllfaoedd rheoli pasbort. Bydd hefyd yn cael ei gynnwys mewn gwiriad estynedig Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu os yw'r drosedd wedi'i nodi fel un nad yw byth yn cael ei hidlo allan o wiriadau.

1.11 Pan mae'n ofynnol i berson ifanc sy'n destun gorchymyn atgyfeirio, oherwydd natur y drosedd, gofrestru o dan *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*, bydd y cofrestriad hwnnw yn parhau yn ôl yr angen o dan y Ddeddf honno wedi i'r gorchymyn atgyfeirio ddarfod.

1.12 Mae gweithrediad gorchmynion atgyfeirio yn cael ei lywodraethu gan gyfarwyddyd statudol (diweddarwyd diwethaf yn 2015) a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (diweddarwyd diwethaf yn 2013). Mae hefyd yn destun cyfarwyddyd rheoli achos a gyhoeddir o bryd i'r gilydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Rydym o'r farn bod y cyfarwyddyd statudol yn rhy fanwl mewn mannau ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigon clir ar yr egwyddorion sylfaenol. Nid yw chwaith yn hawdd i ddefnyddwyr unigol adnabod a deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt.

1.13 I grynhoi, dyma'r pethau sy'n gwneud gorchmynion atgyfeirio yn wahanol o ddedfrydau cymunedol eraill:

- ymwneud y gymuned, yn benodol trwy waith y paneli ac fel buddiolwyr gwneud yn iawn
- rôl y panel wrth gytuno a monitro'r cytundeb ac ymateb i sefyllfaoedd o beidio â chydymffurfio
- swyddogaeth y cytundeb wrth bennu pa weithgareddau fydd yn cael eu hymgymryd ag yn ystod y gorchymyn
- hawl i ddioddefwr i fod ynghlwm a chael lleisio'i farn
- cyfiawnder adferol, unioni niwed a gwneud yn iawn yn ganolog i'r gwaith
- sylw'n cael ei roi i ail-ymgyfuno yn y gymuned
- cyfarwyddyd statudol penodol sy'n berthnasol i'w gweithrediad.

1.14 Fe gynhaliom chwiliadau llenyddiaeth a cheisio adnabod unrhyw werthusiad annibynnol o effeithiolrwydd gorchmynion atgyfeirio. Fe ddarganfuom rhai ystadegau (bellach wedi'u terfynu) a oedd yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd yn dangos effaith gorchmynion atgyfeirio o'i gymharu ag amcan gyfraddau aildroseddu. Fel arall, roedd yn syndod i ni, gan gofio cyfran y dedfrydau a oedd yn orchmynion atgyfeirio, ein bod yn methu â dod o hyd i unrhyw beth o sylwedd y tu hwnt i ychydig werthusiad cyfyngedig ar eu gweithrediad cychwynnol yn 2002.

## 2. Diben, cwmpas a methodoleg yr arolygiad

Mae'r bennod hon yn esbonio diben a chwmpas yr arolygiad a'r broses a ddilynwyd.

2.1 Wrth baratoi ar gyfer yr arolygiad, archwiliwyd tystiolaeth a ddaliwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ynghyd â'r cyfarwyddyd statudol, safonau cenedlaethol a chyfarwyddyd rheoli achos cyhoeddedig. O'r rhain dewisasom nifer bychan o egwyddorion allweddol, a'r rhain luniodd meini prawf ein harolygiad. Fe ymgynghorom ar y rhain gydag amrywiaeth o gyrff â diddordeb. Mae'r meini prawf a'r dangosyddion ansawdd ategol ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, nesaf at yr adroddiad hwn.

2.2 Mae gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi gorff sylweddol o dystiolaeth am ansawdd asesu, cynllunio a chyflwyno gwaith gorchmynion, o'i arolygiad treigl o waith troseddau ieuenctid. Fe ddefnyddiom y wybodaeth honno ar gyfer yr arolygiad hwn yn hytrach nag ailymweld â'r agweddau hynny yn fanwl; er fe wnaethom fodloni ein hunain bod y gwaith a welsom yn fras yn unol â'r canfyddiadau hynny. Yn hytrach, fe ganolbwyntiom at y pethau sy'n gwneud gorchmynion atgyfeirio yn wahanol i ddedfrydau cymunedol eraill. Fe ystyriom a oedd y rhain yn cael eu cyflwyno mewn modd a oedd yn sicrhau bod modd cyflawni eu potensial.

2.3 Fe ymwelom â chwe Thîm Troseddau Ieuenctid, wedi'u dewis i roi cydbwysedd o ddaearyddiaeth a demograffeg. Fe arolygom gyfanswm o 54 achos a ddetholwyd gennym o'r sawl a oedd wedi bod yn destun panel cychwynnol, adolygu neu derfynol yn ddiweddar - gyda'r nod o siarad â chymaint o bobl a oedd ynghlwm yn yr achosion hynny â phosib, gan gynnwys pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr. Fe welsom waith yr holl baneli troseddau ieuenctid a oedd eisoes wedi cael eu trefnu ar gyfer wythnos ein hymweliad. Fe gyfarfuom â chynrychiolwyr o'r rolau staff perthnasol o fewn y Tîm Troseddau Ieuenctid, gan gynnwys aelodau gwirfoddol o'r paneli. Fe gyfarfuom neu siarad â buddiolwyr gwaith gwneud iawn a ymgymerwyd gan bobl ifanc ar orchmynion atgyfeirio ac i gynrychiolwyr ar faint y llys ieuenctid lleol. Fe archwiliom wybodaeth ddogfen a ddarparwyd gan y Tîm Troseddau Ieuenctid.

2.4 Ar ddiwedd eu gwaith maes, fe roddwyd adborth manwl ar lafar i bob Tîm Troseddau Ieuenctid (gan gynnwys y Tîm Troseddau Ieuenctid peilot).

2.5 Fe gynhaliom dau arolwg gyda dioddefwyr. Roedd y cyntaf gyda dioddefwyr troseddau gorchmynion atgyfeirio, yn gweithio gyda'r Timau Troseddau Ieuenctid a ddetholwyd, nad oeddem wedi gallu cwrdd â hwy. Roedd yr ail gyda dioddefwyr achosion a oedd wedi derbyn gorchymyn atgyfeirio yn ddiweddar iawn; roedd gofyn i bob Tîm Troseddau Ieuenctid anfon arolwg i'w dioddefwyr diweddaraf, oherwydd roeddem yn dymuno deall pam roedd dioddefwyr wedi cymryd y cyfle i gymryd rhan ai peidio.

2.6 Yn olaf, fe gyfarfuom â chynrychiolwyr o Gymdeithas yr Ynadon, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid, y Cyngor Cyfiawnder Adferol, Cymorth i Ddioddefwyr, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru.

## 3. Rheoli achos, effeithiolrwydd a goruchwylio reoli

Mae'r bennod hon yn archwilio ansawdd arferion rheoli achosion ac effeithiolrwydd gorchmynion atgyfeirio wrth leihau aildroseddu a gwyro pobl ifanc o'r ddalfa. Mae hefyd yn edrych ar broffil gorchmynion atgyfeirio o fewn timau rheoli, cynlluniau ac arweiniad strategol

Lleihau aildroseddu, amddiffyn y cyhoedd a diogelu a lleihau pa mor agored i niwed mae pobl ifanc sydd wedi troseddu.

3.1 Mae cyfraddau aildroseddu cyhoeddedig yn dilyn gorchmynion atgyfeirio yn gyson wedi bod yn well na'r rhai yn dilyn gorchmynion adsefydlu ieuenctid neu ddedfrydau yn y ddalfa. Yng ngharfan 2013/2014 o achosion, y data diweddaraf ar gael ar yr adeg o ysgrifennu, y gyfradd aildroseddu o fewn 12 mis oedd 39.4%, o'i gymharu â 64.5% ar gyfer y sawl yn destun gorchymyn adsefydlu ieuenctid[2]. Mae gorchmynion atgyfeirio yn cynnwys cyfran o rai sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder am y tro cyntaf neu achosion llai cymhleth, felly, gellir disgwyl canlyniad gwell yn rhesymol mewn unrhyw sefyllfa.

3.2 Mae archwiliad o ddata a oedd â'r bwriad o ddangos faint o wahaniaeth mae'r gwahanol fathau o ddedfrydau yn gwneud, unwaith i broffil gwahanol dramgwyddwyr gael ei ystyried, yn taro goleuni da ar orchmynion atgyfeirio. Yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd[3] fe aildroseddodd y sawl a dderbyniodd gorchymyn atgyfeirio yn y flwyddyn i fis Mawrth 2012 o fewn 12 mis, 1.8% yn llai nag a ragwelwyd gan edrych ar eu proffil. Roedd hwn wedi bod yn batrwm cyson am nifer o flynyddoedd ac wedi parhau yn y data mwy diweddar a ddarparwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ym mhob achos, roedd hyn yn ganlyniad gwell, mewn perthynas â'r gyfradd a ragwelwyd, nag ar gyfer gorchmynion adsefydlu ieuenctid a dedfrydau yn y ddalfa.

3.3 Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn comisiynu arolwg blynyddol o farn pobl ifanc o dan oruchwyliaeth Timau Troseddau Ieuenctid ynglŷn â'r gwaith a wneir gyda hwy. Yn ystod y flwyddyn i fis Mawrth 2015, cwblhaodd 5,312 person ifanc yr arolwg, gyda 2,460 ohonynt ar orchymyn atgyfeirio. O'r rhain, dywedodd 88% o bobl ifanc ar orchmynion atgyfeirio eu bod yn llai tebygol o droseddu yn dilyn gweithio gyda Thîm Troseddau Ieuenctid. Roedd hyn ychydig yn well nag ar gyfer gorchmynion adsefydlu ieuenctid a llawer yn well na dedfrydau o garchar. Ym mhob achos, roedd pobl ifanc ar orchmynion atgyfeirio yn lawer fwy positif am y gwaith a oedd wedi cael ei wneud yn y Tîm Troseddau Ieuenctid.

3.4 Mae ein rhaglen arolygu Sgrinio Ansawdd Byr yn canolbwyntio ar y cyfnod yn syth yn dilyn dechrau'r ddedfryd. Maen arolygiadau hyd at fis Rhagfyr 2015, a oedd yn cynnwys 535 achos atgyfeirio a 2,406 achos cymunedol arall, daeth arolygyddion i'r casgliad bod canlyniadau cychwynnol mewn achosion gorchymyn atgyfeirio yn gyson yn well na, neu'n debyg i rai o ddedfrydau cymunedol eraill, fel gellir ei gweld yn y tabl canlynol:

[2] Ffynhonnell: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment-_data/file/495637/proven-reoffending-apr13-mar14-tables.xlsx
[3] Ffynhonnell: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment-_data/file/428360/National_PNC_Reoffending_tool.xls

| **Canfyddiadau o'r arolygiadau Sgrinio Ansawdd Byr, gan ganolbwyntio ar fisoedd cynnar y ddedfryd** | Gorchmynion Atgyfeirio | Dedfrydau Cymunedol Eraill |
|---|---|---|
| Fe gydymffurfiodd y plentyn neu berson ifanc yn llawn â gofynion y ddedfryd | 59% | 41% |
| Ers cychwyn y ddedfryd, a yw'r plentyn neu berson ifanc yma wedi cael ei gyhuddo o drosedd? | 17% | 32% |
| Ers cychwyn y ddedfryd, a yw'r plentyn neu berson ifanc yma wedi cael ei ganfod yn euog o drosedd? | 13% | 20% |
| Yn gyffredinol, a yw'r plentyn neu berson ifanc yma yn llai tebygol o droseddu na phan gychwynnodd y ddedfryd? | 46% | 34% |

3.5 Pwyswn arnoch, fodd bynnag, i fod yn ofalus wrth ddehongli'r data cadarnhaol yn y paragraffau blaenorol. Nid oes modd i ni ddweud a yw'r gwahaniaethau oherwydd natur y gorchymyn, y garfan o bobl ifanc, cyfuniad o'r ddau neu ffactorau eraill.

3.6 Dynoda ymchwil diweddar[4] fod y defnydd o gyfiawnder adferol yn gallu cynyddu bodlonrwydd dioddefwyr a chael effaith ar leihau troseddu. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mwy o ymwneud gan ddioddefwyr, sy'n cael ei drafod mewn adran arall o'r adroddiad hwn, a'r defnydd o gyfiawnder adferol yn gallu gwneud gorchmynion atgyfeirio yn fwy effeithiol wrth leihau troseddu.

## Arferion rheoli achos craidd

3.7 Roedd arferion rheoli achos craidd (h.y. y swyddogaethau cyffredin hynny, gan gynnwys asesu a chynllunio, y dylid cael eu gwneud ar bob dedfryd dan oruchwyliaeth Tîm Troseddau Ieuenctid) mewn achosion gorchymyn atgyfeirio ar draws ein rhaglen arolygu gyfredol cystal â'r cyfartaledd ar gyfer pob dedfryd. O fewn arolygiadau Sgrinio Ansawdd Byr, roedd tua 80% o waith gorchymyn atgyfeirio i leihau aildroseddu a bron i 90% o waith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei gwblhau yn ôl y gofyn, yn foddhaol neu'n well. Roedd bron dri chwarter o'r gwaith i amddiffyn y cyhoedd a diogelu'r plentyn neu berson ifanc a lleihau pa mor agored i niwed maen nhw yn foddhaol neu'n well. Ym mhob achos, roedd hyn rhwng tri a chwe phwynt canran yn well na gwaith ar ddedfrydau cymunedol eraill yn ystod yr un cyfnod o'r ddedfryd. Er bod gwaith maes yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar elfennau unigryw gorchmynion atgyfeirio, adlewyrchwyd y canlyniadau isod yn yr achosion a arolygwyd.

[4] *Restorative Justice Conferencing (RJC) Using Face-to-Face Meetings of Offenders and Victims: Effects on Offender Recidivism and Victim Satisfaction.* A Systematic Review, Strang et al (Campbell Systematic Reviews 2013:12) http://www.campbellcollaboration.org/lib/project/63/

| **Canfyddiadau o'r arolygiadau Sgrinio Ansawdd Byr, gan ganolbwyntio ar fisoedd cynnar y ddedfryd** | Gorchmynion Atgyfeirio | Dedfrydau Cymunedol | Pob dedfryd |
|---|---|---|---|
| Roedd asesiad digonol o pam y troseddodd y person ifanc hwn a beth allai helpu i leihau hynny | 82% | 77% | 78% |
| Roedd ymdrechion digonol i adnabod a deall ffactorau amrywiaeth a rhwystrau at gydweithredu | 83% | 83% | 83% |
| Roedd asesiad digonol o'r risg o niwed i eraill a berwyd gan y person ifanc hwn | 77% | 71% | 73% |
| Roedd asesiad digonol o'r anghenion agored i niwed a diogelu yn yr achos hwn | 77% | 73% | 75% |
| Roedd cynllunio digonol ar gyfer gwaith i leihau troseddu | 82% | 73% | 76% |

3.8 Roedd yr achosion a arolygom yn cynnwys bechgyn a merched, ac yn dod o amrediad eang o gefndiroedd ethnig. Yn gyffredinol, roeddem yn hapus i ddarganfod bod digon o sylw yn cael ei dalu i ffactorau amrywiaeth trwy gydol y gwaith mewn tua thri chwarter o'r achosion.

3.9 Fe asesom a oedd sylw wedi cael ei roi i hyrwyddo osgoi troseddu yn y gwaith cynllunio ac wrth gyflwyno. Roeddem yn siomedig bod hyn yn ddigon da mewn llai na hanner o'r achosion a arolygom, oherwydd bod adnabod beth allai cefnogi osgoi troseddu a gweithio tuag at hynny yn elfen hanfodol o leihau troseddu yn y dyfodol. Er enghraifft, nid oedd digon o sylw yn cael ei roi mewn cytundebau, ble fo angen, i gynnal neu wella addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; i ddatblygu gweithgareddau cadarnhaol ac i ddefnyddio diddordebau neu ddyheadau'r person ifanc wrth ddatblygu'r cytundeb. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau mewn penodau dilynol ble gellir disgrifio llawer o'r gwaith cynllunio fel edrych yn ôl ar y broblem, yn hytrach nag ymlaen at y datrysiad.

**Esiampl o arfer gwael: achos ble roedd angen rhoi mwy o sylw i ffactorau allai gefnogi osgoi troseddu**

Roedd Sean wedi cael diagnosis o Anhwylder Herio Gwrthryfelgar. Roedd yn annhebygol o ymrwymo'n gadarnhaol gyda gwaith a oedd yn herio ei ymddygiad. Roedd y panel yn cydnabod hynny gyda sut roeddent yn ymrwymo ag ef, ond nid oeddent yn adnabod y goblygiadau ar gyfer gwaith parhaus. Fe wnaeth y panel a Sean adnabod mai'r pethau a oedd fwyaf tebygol o'i gadw allan o drwbl oedd addysg ac effaith ei droseddu ar ei fam-gu a'i dad-cu yr oedd yn eu caru'n fawr iawn. Nid oedd y cytundeb yn talu sylw i'r rhain ac yn hytrach roedd yn mynd i'r afael â'r ffactorau gwreiddiol yn ymwneud â throseddu yn unig. Nid oedd yn fawr o syndod, felly, mai cynnydd cyfyngedig a wnaethpwyd yn ei waith gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid.

3.10 Mae tystiolaeth o Brosiect Aildroseddu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi tynnu sylw at y ffaith bod cyfran helaeth o bobl ifanc sy'n aildroseddu yn gwneud hynny yn y mis cyntaf ar ôl eu dedfrydu. Er nad yw hyn yn broblem gyda gorchymyn atgyfeirio yn unig, mae cadw'n gaeth at broses y gorchymyn atgyfeirio yn cynyddu'r amser cyn bod gwaith sylweddol yn debygol o gychwyn o'i gymharu â dedfrydau eraill. Mae hyn oherwydd hyd yr amser cyn

bod y panel cychwynnol i fod i gwrdd. Mae hi felly'n bwysig ymrwymo pobl ifanc yn gyflym cyn iddynt ddechrau llithro. Mae dadansoddiad gan Dîm Troseddau Ieuenctid Stoke wedi adnabod bod cyfran helaeth o aildroseddu'n digwydd o fewn gorchmynion atgyfeirio ac yn benodol yn y cyfnod cynnar, gan arwain at ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â hynny.

**Esiampl o arfer nodedig: adnabod cyswllt rhwng gorchmynion atgyfeirio ac aildroseddu**

Dull Stoke o ymwneud yn y prosiect aildroseddu dan arweiniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r defnydd o'i Pecyn Cymorth Aildroseddu oedd cynnal adolygiad dwfn o bob achos ble roedd y person ifanc yn aildroseddu. Roeddent wedi adnabod bod cyfran uchel o aildroseddu'n digwydd ar orchmynion atgyfeirio ac yn benodol yn ystod eu hwythnosau cynnar. O ganlyniad, fe grëwyd cynllun gwella gorchmynion atgyfeirio. Roedd yn cynnwys mwy o ymglymiad gyda phobl ifanc yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl dedfrydu, paneli adolygu misol (heb adroddiadau ychwanegol) ar gyfer y tri mis cyntaf yn canolbwyntio ar ysgogiad a sicrhau bod y gorchymyn yn setlo, a gofyn i bobl ifanc gwblhau holiadur i ddarparu eu barn ar baneli. Golyga eu hymagwedd bod Tîm Troseddau Ieuenctid Stoke wedi ennill dealltwriaeth bwysig o aildroseddu, gan arwain at gynlluniau gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r problemau a ganfuwyd. Roedd yn rhy fuan i allu dweud a oedd y cynlluniau hyn yn effeithiol ai peidio.

3.11 Mewn llawer o achosion dim ond un cyswllt wyneb-yn-wyneb (ar gyfer un ymweliad asesu) oedd rhwng y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r person ifanc yn y 20 diwrnod gwaith rhwng dyddiad y ddedfryd a'r panel cychwynnol. Mae lefel mor isel o gyswllt yn annerbyniol. Ni ddylid ceisio achub y blaen ar benderfyniadau'r panel. Nid yw hynny'n cyfiawnhau diffyg sylw i gymell y person ifanc, sicrhau bod yr asesiad yn gynhwysfawr, sicrhau bod y person ifanc yn deall yr adroddiad gorchymyn atgyfeirio a mynd ati i fonitro eu hymddygiad yn weithredol. Roedd aelodau'r panel yn aml yn gwneud sylwadau ar yr amlder nad yw pobl ifanc yn troi i fyny yn eu panel cychwynnol, a all awgrymu nad oes digon o waith ysgogol wedi cael ei wneud. Doedd dim disgwyliad clir ar reolwyr achos ynghylch sut y dylid defnyddio'r cyfnod hwn yn yr un Tîm Troseddau Ieuenctid; er bod gweithwyr weithiau mewn achosion unigol yn gwneud defnydd gwell ohono.

**Esiampl o arfer nodedig: Clinig Asesu Sutton**

Cynhaliwyd clinig asesu yn Sutton ar yr un diwrnod â'u llys ieuenctid. Dywedwyd wrth y bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fynychu'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn syth ar ôl ymddangos gerbron y llys. Roedd hyn yn gyfleus ar gyfer y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr gan eu bod eisoes wedi trefnu i gael y diwrnod i ffwrdd o'r gwaith. Cynhaliwyd gwiriadau ysgol y diwrnod blaenorol, yn seiliedig ar restrau'r llys. Byddai gweithwyr o asiantaethau partner ar gael ar gyfer y clinig, a oedd yn cynnwys asesiad rhianta. Golyga hyn nad oedd oedi yn y broses asesu a pharatoi.

## Dargyfeirio pobl ifanc o'r ddalfa

3.12 Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae'r person ifanc wedi pledio'n euog ac wedi cael ei ddedfrydu am y tro cyntaf, yr unig opsiynau dedfrydu yw gorchymyn atgyfeirio, neu, os bydd yr achos wedi cyrraedd y trothwy o garchar, dedfryd o garchar ar unwaith. Fe geisiom nodi enghreifftiau o bobl ifanc yn derbyn dedfryd o garchar pan roedd gorchymyn atgyfeirio addas ar gael. Roeddem yn falch ein bod yn methu dod o hyd i unrhyw achosion diweddar yn y Timau Troseddau Ieuenctid yr ymwelwyd â hwy.

3.13 Ar gyfer achosion mwy difrifol lle mae dedfryd o garchar a gorchymyn atgyfeirio yn cael eu hystyried, mae opsiwn i osod gorchymyn atgyfeirio gyda gofyniad dwys. Ar lawer cyfrif mae hyn yn debyg i'r gofyniad Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys (ISS) a ddefnyddir

mewn rhai dedfrydau eraill, lle mae rhaglen ddwys o waith yn cael ei ddarparu fel dewis amgen cadarn i'r ddalfa.

3.14 Roeddem yn falch o weld defnydd priodol yn cael ei wneud o'r opsiwn dwys ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yr ymwelwyd â hwy. Roedd hyn yn effeithiol o ran cynnal nifer fach o bobl ifanc yn llwyddiannus ac yn ddiogel yn y gymuned, pan roedd tystiolaeth y gellid rheoli eu risg i eraill yn y modd hwnnw. Yn Lerpwl roeddem yn falch iawn o weld y defnydd o orchmynion atgyfeirio gyda chytundebau dwys. Gwelsom enghreifftiau lle maen nhw wedi bod yn arbennig o effeithiol. Fe welwyd gwaith tebyg o ansawdd uchel i amddiffyn y cyhoedd a lleihau troseddu ar orchmynion atgyfeirio gyda chytundebau dwys mewn Timau Troseddau Ieuenctid eraill; er ein bod weithiau yn ystyried bod yr agweddau hyn ar y gwaith yn golygu nad oedd y cyfleoedd ychwanegol y gallai gorchymyn atgyfeirio darparu yn derbyn digon o sylw.

3.15 Er mwyn gwneud defnydd llawn o'r opsiynau dwys, rhaid i ddedfrydwyr fod yn hyderus y bydd y ddedfryd yn cael ei reoli yn ddiogel ac yn dda. Roedd yn amlwg i ni, yn y meysydd a arolygwyd gennym, bod ganddynt lefel uchel o hyder cyffredinol yng ngwaith y Timau Troseddau Ieuenctid. Dynododd ymchwil gan Gymdeithas yr Ynadon, fodd bynnag, (gweler pennod naw) y byddai dedfrydwyr yn elwa o fwy o hyder yn y gorchymyn atgyfeirio fel dewis amgen i'r ddalfa.

3.16 Mae gwahaniaeth sylweddol yn yr effaith rhwng gorchymyn atgyfeirio (hyd yn oed os gyda'r uchafswm o 12 mis) a dedfryd o garchar, sef yr unig ddewisiadau eraill mewn achosion yn ymwneud â'r trothwy ddalfa. Mae tystiolaeth hefyd y gall achosion troseddu rhywiol angen cyfnod hwy i gwblhau'r gwaith adsefydlu. Fe welsom awydd cyfyngedig i bontio'r bwlch hwnnw (er enghraifft yr opsiwn o 24 mis yn gyfyngedig i rai achosion mwy difrifol) ond mae cefnogaeth ehangach ar gyfer y posibilrwydd hwnnw os yw'n cynyddu dargyfeiriad o'r ddalfa ymhellach.

## Rheolaeth ac arweiniad

3.17 Yn ddieithriad, roedd gan reolwyr y cyfarfuom â hwy weledigaeth drawiadol ac ymrwymiad i'r defnydd o gyfiawnder adferol. Roedd cynnydd da wedi'i wneud o ran sicrhau bod hyn yn treiddio diwylliant y sefydliadau, yn enwedig yn Wakefield a Wiltshire. Yn aml roedd rhwystredigaeth oherwydd diffyg cyfleoedd i wneud defnydd llawn o gyfleoedd adferol, o ganlyniad i ddioddefwyr yn methu cymryd rhan. Weithiau, nid oedd y bwriad i gynyddu’r nifer o ddioddefwyr oedd yn cymryd rhan yn cael ei gyfateb gan ddealltwriaeth o sut i wneud i hynny ddigwydd.

3.18 Pan ofynnwyd iddynt egluro beth oedd yn gwneud gorchmynion atgyfeirio yn wahanol a sut y byddent yn manteisio ar eu hamcanion, roedd ymateb rheolwyr weithiau'n gyfyngedig i'r ffaith eu bod wedi'u bwriadu i fod adferol a bod y broses yn cynnwys panel. Nid oeddent bob amser yn dangos dealltwriaeth o'u hamcanion ehangach. Roedd ymrwymiad clir i wella arferion achos craidd, ond roedd llawer o reolwyr yn cael anhawster mawr wrth egluro sut roeddent yn bwriadu trosi'r ymrwymiad hwnnw i wella gwaith gorchmynion atgyfeirio a'r canlyniadau ehangach y gellid eu cyflawni trwy hynny. Ychydig iawn o wybodaeth oedd gan rhai rheolwyr am ofynion y canllawiau statudol.

3.19 Archwiliom gynlluniau busnes diweddaraf nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid eraill a ddewiswyd ar hap, a chawsom drafferth yn dod o hyd i gyfeiriad penodol at wella gwaith gorchmynion atgyfeirio, y tu hwnt i gyfeiriadau generig at wella cyfranogiad dioddefwyr, a chynyddu mynediad at gyfiawnder adferol. Yn yr un modd nid oedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid na Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru wedi rhoi llawer o sylw yn ddiweddar i orchmynion atgyfeirio.

3.20 Roedd y canfyddiadau hyn yn syndod i ni, yn enwedig o ystyried y gyfran uchel o lwyth gwaith Timau Troseddau Ieuenctid mae gorchmynion atgyfeirio yn ei gynrychioli, a'u pwysigrwydd wrth sicrhau bod gyrfaoedd troseddu pobl ifanc yn dod i ben ar yr adeg gynharaf posibl.

**Esiampl o arfer nodedig: Adolygiad Wiltshire o waith gorchmynion atgyfeirio**

Pan iddynt sylweddoli eu bod yn mynd i fod yn rhan o'r arolygiad hwn cynhaliodd Wiltshire adolygiad mewnol o'u gwaith gorchmynion atgyfeirio, ar sail y meini prawf arolygu yr oeddem wedi'u cyhoeddi. Amlygodd yr adolygiad nifer o'r meysydd gwella y daeth ein gwaith maes arolygu, o hyd iddynt yn ddiweddarach. Dyma oedd y tro cyntaf iddynt geisio taflu goleuni manwl ar orchmynion atgyfeirio a dangos y gwerth o ddewis adolygu maes penodol o waith yn erbyn meini prawf allanol.

3.21 Mae paneli yn hanfodol i orchmynion atgyfeirio; felly mae angen i reolwyr roi digon o sylw i fonitro eu heffeithiolrwydd a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu datblygiad. Roedd gwaith sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth paneli yn amrywio. Nid oedd yn ddigon da yn unrhyw un o'r Timau Troseddau Ieuenctid a arolygwyd. Ychydig o reolwyr yn unig oedd wedi arsylwi panel a deall sut maen nhw'n gweithio, felly weithiau roedd ein canfyddiadau yn syndod iddynt. Mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid roedd y diffyg ymgysylltu â rheolwyr wedi arwain gwirfoddolwyr i deimlo nad oeddent yn bwysig, er ein bod hefyd wedi dod o hyd i enghreifftiau cadarnhaol o wirfoddolwyr yn cael eu trin fel aelodau llawn a gwerthfawr o'r tîm. Er enghraifft, gwahoddodd Tîm Troseddau Ieuenctid Stoke aelodau'r panel i seremoni wobrwyo'r tîm.

**Mae adolygiadau achos yn dangos nifer o gryfderau achos sy'n cael ei redeg yn dda gyda chytundeb dwys sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol, ond hefyd sut y mae'r egwyddorion sy'n sail gorchmynion atgyfeirio a phwysigrwydd gwaith sydd wedi'i integreiddio'n dda yn cael eu hanwybyddu:**

Cafwyd Jo yn euog o drosedd rywiol. Fe greodd y panel cyn-llys cytundeb drafft a oedd yn egluro i'r dedfrydwyr sut y gallai gael ei reoli'n ddiogel yn y gymuned.

**Y cytundeb**

Er bod unigedd yn ffactor allweddol nid oedd y cytundeb yn cyfeirio ato. Gwnaeth y gweithiwr ISS ei chynnwys yn ei gynllunio, ond nid oedd llawer o debygrwydd rhwng hwn â'r cytundeb. Nid oedd unrhyw un wedi ystyried dychwelyd yr achos i banel am adolygiad i fynd i'r afael â'r hepgoriad. Fe wnaeth lawer o waith gwerthfawr i gael Jo i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol, ond unwaith eto nid oedd hyn yn y cytundeb felly nid oedd gan y panel, a oedd yn gyfrifol am gytuno ar amcanion, unrhyw rôl wrth benderfynu neu fonitro hyn.

**Ansawdd cofnodion**

Roedd teulu'r dioddefwr wedi symud i ffwrdd ac yn awyddus i roi'r digwyddiad y tu ôl iddynt. Roedd y rheolwr achos yn gwybod hyn, ond nid oedd unrhyw beth wedi'i gofnodi i egluro hyn i unrhyw un arall a allai fod angen gwybod. Nid oedd yno gofnodion sylweddol am gyfraniad Jo yng nghyfarfodydd y panel chwaith. Roedd y rhain yn hanfodol i ganlyniadau, ond nid oedd yr wybodaeth bwysig hon ar gael i eraill.

**Gwaith a wnaed**

Rhoddwyd ymdrech i mewn i ailadeiladu perthnasoedd teuluol, a oedd yn llwyddiannus. Nid oedd yr angen ar gyfer hyn wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad i'r panel, y cytundeb neu ddogfennau cynllunio - felly doedd dim trafodaeth yn y panel am bwysigrwydd ei gyflawni.

Roedd Jo wedi'i wahardd o'r ysgol. Llwyddodd y Tîm Troseddau Ieuenctid eirioli dros ei ail-ymgyfuno, a oedd yn hanfodol i osgoi troseddu, ond doedd dim sôn am addysg yn y cytundeb.

Fe wnaethpwyd gwaith gwneud yn iawn un-i-un am resymau diogelwch priodol. Cyflwynodd y gweithiwr gwneud iawn gwaith cwnsela a chymhelliant i ffwrdd o amgylchedd ffurfiol, a phasio'r dysgu o hyn yn ôl i'r rheolwr achos. Mae'r ymagwedd hon yn arbennig o werthfawr.

Cafodd gwaith sylweddol ei wneud i fynd i'r afael â'r troseddu rhywiol a helpu Jo ddeall a rheoli effaith tymor hwy'r troseddu ar ei hun.

**Canlyniadau cadarnhaol**

Sefydlodd Jo grŵp priodol o gyfoedion, nid oedd bellach yn ynysig ac roedd wedi datblygu perthnasoedd teuluol da. Aseswyd fod ei debygolrwydd o droseddu wedi gostwng yn sylweddol.

Pan ofynnwyd beth oedd wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf dywedodd: *"Dywedais wrth y panel fy mod wedi pechu a fy mod yn teimlo'n ddrwg iawn am hynny. Fe ddywedais hyn yn gyhoeddus, nid dim ond... . yn breifat - roedd hynny'n anodd Roedd yn dda i fyfyrio gyda nhw. Nid wyf yn meddwl y gallwn i fod wedi mynd cyn belled heb iddynt wneud hynny."*

**Casgliad**

Roedd y canlyniadau amddiffyn y cyhoedd ac aildroseddu yn gadarnhaol. Roedd rheoli achosion yn dda yn helpu gyda hyn, fel y gwnaeth gwaith gwneud iawn a'r trafodaethau gyda'r panel. Roedd y panel wedi'i ymyleiddio o wneud penderfyniadau, y cytundeb yn annigonol ac nid oedd gwybodaeth yn cael ei ledaenu'n ddigon da. Roedd y panel yn bwysig o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, ond dim ond Jo oedd yn cydnabod ei werth.

## 4. Y berthynas rhwng gweithwyr achos a phaneli

Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol rhwng gorchmynion atgyfeirio a dedfrydau eraill yw cyfraniad y panel troseddwyr ifanc, sy'n golygu nad yw rheolaeth yr achos yn eiddo i'r rheolwr achos yn yr un modd ag y mae mewn dedfrydau eraill. Mae cael y berthynas rhwng y rheolwr achos a'r panel yn iawn yn hanfodol er mwyn iddynt weithredu'n effeithiol.

Mae'r bennod hon yn archwilio'r berthynas honno ac yn cyflwyno enghraifft ddamcaniaethol o sut y gallant ategu ei gilydd a dod yn fwy effeithiol.

4.1 Un thema ailadroddus ac allweddol yn yr arolygiad oedd y berthynas rhwng gwaith rheolwyr achos a gwaith paneli troseddwyr ifanc, a'r tensiynau sydd weithiau'n bodoli rhyngddynt. Anawsterau gyda'r berthynas sy'n ffurfio maes gwelliant mwyaf sylweddol yn yr arolygiad hwn. Er bod enghreifftiau lle yr oedd yn gadarnhaol, roedd llawer o sefyllfaoedd eraill ble nad oedd hyn yn wir. Ar ei waethaf fe ganfuom dadrymuso sylweddol o baneli a gelyniaeth, llwyr ar adegau, tuag atynt gan reolwyr achos. Hyd yn oed ble mae deallusrwydd o amcanion y berthynas, nid oedd hyn bob tro yn arwain at gytundebau o ansawdd da sy'n mynd i'r afael â dymuniadau'r dioddefwr, ffactorau a all gefnogi osgoi troseddu ac ail-ymgyfuno. Mae ansawdd y cytundebau'n cael ei archwilio'n fanwl ym mhennod pump.

4.2 Yn ein barn ni, esboniad pwysig, ond rhannol, am yr anawsterau oedd yr atebolrwydd sylfaenol roedd gan reolwyr achos mewn dedfrydau eraill i wneud yn siŵr bod cynlluniau ac ymyriadau yn cyfateb i'r ffactorau sy'n ymwneud â throseddu sy'n bresennol yn yr achos. Nid oedd hyn wedi'i gydbwyso gan gydnabyddiaeth o egwyddorion theori ymatal na bod y cyfrifoldeb hwnnw mewn gorchmynion atgyfeirio, yn enwedig ar gyfer gwaith i leihau troseddu, yn gorwedd gyda'r panel troseddwyr ifanc.

### Rheolwyr achos

4.3 Nid oedd gan lawer o reolwyr achos ddealltwriaeth glir o'r egwyddorion allweddol sy'n llunio sail gorchmynion atgyfeirio a sut mae'r rhain yn wahanol i'r dedfrydau eraill, nac o'r canllawiau statudol. Fe ofynnom iddynt ddisgrifio beth roedd y gwahaniaethau yn eu golygu yn ymarferol. Tra bod rhai yn deall hyn, roedd eraill yn cyfyngu eu hymateb i rôl y panel a chyfranogiad gwirfoddolwyr - ond fel materion o ffaith a phrosesau i'w dilyn, heb werthfawrogi'r goblygiadau.

4.4 Cawsom ein calonogi bod llawer o reolwyr achos yn cydnabod gwerth posibl y cydweithredu rhwng y panel a'r person ifanc, a bod cynnwys gwirfoddolwyr sy'n cynrychioli'r gymuned yn golygu y gallai hyn fod yn fwy pwerus na deialog asesu a chynllunio gyda'r rheolwr achos, ond yn fwy anffurfiol a gofalgar hefyd. Roeddent yn cydnabod bod paneli weithiau yn gallu ennill dealltwriaeth o’r newydd. Pan ofynnwyd am y cytundeb, dywedodd pob un mai'r panel oedd yn gosod y cytundeb, ond nid oedd llawer ohonynt yn cydnabod nac yn derbyn goblygiadau hynny ar gyfer y ffordd y maent yn gweithio.

4.5 Fe drafodom sut y byddai rheolwyr achos yn ymateb os oeddent yn credu bod yr hyn y cytunwyd arno yn y cytundeb yn wahanol i'w hasesiad o'r pryderon allweddol yn yr achosion, neu os yw'r rhain yn newid. Dywedodd rhai y byddent yn mynd yn ôl i'r panel yn ceisio gwelliant, ond roedd yn siomedig canfod nad oedd y rhan fwyaf yn gweld yr angen dros wneud hynny ac yn ystyried bod ganddynt y rhyddid i newid pethau fel y maent yn teimlo sy'n briodol, waeth beth oedd yn y cytundeb. Eglurodd rhai eu bod yn syml yn

gwneud yr hyn y maent wedi asesu oedd ei angen o'r dechrau beth bynnag ac yn talu dim mwy na gwasanaeth gwefus i'r cytundeb y cytunwyd arno gyda'r panel. Ar rai achlysuron roedd rheolwyr achos yn methu dod o hyd i gopi o'r cytundeb, nid oeddent yn gwybod beth oedd arno ac nid oeddent yn poeni am hynny. Roeddem yn teimlo bod hynny'n dangos agwedd amhriodol rhai at rôl y panel a'r cytundeb.

4.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, cytunodd y rheolwr achos i gynllun ymyrryd ar wahân gyda'r person ifanc, weithiau gan wneud defnydd o fforymau mewnol eraill i lywio'r cynllunio. Yn aml, roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys ffactorau cysylltiedig neu gadarnhaol nad oedd yn y cytundeb troseddu. Roedd hyn yn debygol o ddrysu rôl y panel yn llygaid pobl ifanc. Er ei bod yn hanfodol bod cynllun cyflenwi clir ar gyfer ymyriadau, roedd sut roedd hyn yn cael ei wneud yn dangos camddealltwriaeth o rôl y panel a'r cytundeb y cytunwyd arno.

4.7 Ar adegau roeddem o’r farn fod agwedd rheolwyr achos at y panel a'r cytundeb yn un o haerllugrwydd proffesiynol a diffyg parch. Mynegodd rhai rheolwyr achos farn y gellir ei grynhoi orau fel: 'Ni yw'r bobl broffesiynol, gwirfoddolwyr ydyn nhw, a ni sy'n gwybod beth sydd ei angen'. Gwelsom enghreifftiau o reolwyr achos i bob pwrpas yn cymryd drosodd y panel, yn ceisio dwyn rheolaeth ormodol ac yn gwthio'r panel i mewn i'r cytundeb roeddent ei eisiau. Mewn achosion eraill gwelsom reolwyr achos yn gadael aelodau'r panel heb unrhyw amheuaeth, yn ystod cyfarfod ymlaen llaw, yr hyn yr oeddent yn **disgwyl** ei weld yn y cytundeb. Rydym yn cydnabod bod angen i baneli ddeall meddylfryd y rheolwr achos, a gwelsom enghreifftiau o drafodaeth briodol i helpu i gyflawni hynny, ond weithiau roedd y lefel o reolaeth a geisiwyd ei gael yn amhriodol. Y mwyaf roedd y rheolwr achos yn cyfrannu, un ai ymlaen llaw neu yn y panel, y mwyaf mae'n cau cyfleoedd i lawr ar gyfer trafodaeth agored rhwng y panel a'r person ifanc.

4.8 Wrth i'r arolygiad fynd rhagddo ac i'r canfyddiadau yn yr adran hon ddod yn glir, fe ymestynnom ein trafodaethau gyda rheolwyr achos i archwilio sut y gellir cysoni'r rolau. Fe ddatblygom enghraifft ddamcaniaethol, a ddisgrifir yn nes ymlaen yn y bennod hon, a ddefnyddiom i ddangos sut y gellid cyflawni hyn. Roeddem wedi ein calonogi'n fawr, unwaith iddynt sylweddoli'r pwynt o'r hyn roeddem yn ei ddweud, roedd y rhan fwyaf yn ei derbyn yn gadarnhaol, gan arwain at lawer o drafodaethau defnyddiol am sut y gellid ei roi ar waith.

**Dyfyniad:** Dywedodd un rheolwr achos, yn dilyn trafodaeth hir ynghylch sut y dylai rolau ategu ei gilydd: *"Os ydym yn y cyfarfod panel neu beidio, rydym yn rhan o’r cytundeb hwnnw ac felly mae gennym gyfrifoldeb i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei dilyn, yn union fel unrhyw gytundeb arall."*

### Aelodau'r panel

4.9 Roedd aelodau'r panel yn amlwg yn deall pwysigrwydd eu rôl ac wedi ymrwymo i wella bywydau pobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf yn cydnabod y dylanwad y gallent ei gael dros y cytundeb ac yn aml yn mynnu bod ganddynt le i newid ei natur. Yna cawsom gynnig rhai enghreifftiau o hyn yn digwydd mewn ystyr sylweddol - er i ni weld rhai enghreifftiau cadarnhaol mewn rhai o'r paneli arsylwyd gennym. Yn aml, fe welsom mwy o dystiolaeth o nerfusrwydd i wneud yn siŵr bod yr holl ffactorau/ymyriadau a argymhellir sy'n gysylltiedig â throseddu wedi cael eu cydnabod yn y cytundeb terfynol, yn hytrach na hyder i gymryd barn annibynnol a oedd wedi'i hysbysu, yn hytrach na'i bennu, gan yr adroddiad i'r panel.

4.10 Roedd llawer o aelodau'r panel yn teimlo'n rhwystredig oherwydd eu bod yn teimlo na allent wneud cyfraniad mwy sylweddol, pan roeddent mewn gwirionedd yn rhoi sêl bendith rwber ar yr hyn a gynigiwyd iddynt. Ni welsom lawer o dystiolaeth o Dimau Troseddau

Ieuenctid yn cael eu herio am hyn. Roedd cyfran lai o lawer yn fodlon ar y sefyllfa ac yn gweld dim byd o'i le ar gymryd y cynigion yn yr adroddiad a'u gosod i mewn i'r cytundeb fwy neu lai fel yr ysgrifennwyd gyda thrafodaeth bellach cyfyngedig gyda'r person ifanc. Yn yr achos olaf roeddent yn aml yn gweld eu rôl yn bennaf fel dal y person ifanc i gyfrif a sicrhau eu bod yn deall y niwed a achoswyd, heb gydnabod pwysigrwydd eu rôl wrth weithio allan yr hyn y dylid ei wneud i sicrhau nad oedd yn digwydd eto.

4.11 Aeth nifer o aelodau panel trwy broses debyg gyda ni, yn gweithio allan sut y dylai paneli a rheolwyr achos weithio gyda'i gilydd, fel y gwnaeth rheolwyr achos. Eto roedd hyn yn galonogol iawn, er bod nifer fechan yn gwrthsefyll. Yn gyffredinol, canfuom fod aelodau'r panel, unwaith iddynt gael eu hannog i fyfyrio ar yr hyn yr oeddent yn ceisio ei gyflawni, yn awyddus i weld eu rôl yn datblygu fel y trafodon ni.

### Effaith ar weithrediad y panel

4.12 Bydd ansawdd paneli troseddwyr ifanc yn cael ei drafod yn y bennod nesaf. Digon yw dweud yma mai effaith y problemau a ddisgrifiwyd yn y bennod hon oedd bod paneli yn aml yn methu cael perthynas gadarnhaol gyda'r person ifanc, ac nid oedd yn gwneud cyfiawnder â rhan allweddol o'u rôl. Roeddem yn falch na fod hynny'n wir bob amser - rydym hefyd wedi arsylwi paneli sy'n ymdrechu'n galed i sicrhau bod y person ifanc yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt, gwneud rhywfaint o ymdrech i ystyried eu safbwyntiau ac roedd ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl. Hyd yn oed yn yr achosion hyn, anaml iawn roedd yr ymdrech yn arwain at gytundebau o'r ansawdd yr oeddem yn disgwyl.

**Dyfyniad:** disgrifiodd un rheolwr achos elfen allweddol o'r broblem yn eithaf cryno gan ddweud: *"mae'r cytundeb yn ei hanfod yn adlewyrchiad o fy nehongliad o'r person ifanc, yn hytrach na chytundeb rhwng y person ifanc a'r gymuned."*

### Cyfarwyddyd ac adroddiadau i'r paneli

4.13 Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau i baneli yn cynnwys argymhellion clir ar yr hyn yr oedd angen ei hadlewyrchu yn uniongyrchol yn y cytundeb. Mae hyn yn groes i'r gofyniad (paragraff 7.2) yn y canllawiau statudol sef 'y dylai'r cytundeb beidio â gwneud argymhellion yn gyffredinol', ond yn hytrach yn gofyn bod gan 'aelodau'r panel y wybodaeth ddiweddaraf ar yr amrediad o gyfleodd gwneud iawn ac ymyriadau sydd ar gael ar hyn o bryd a ellid eu cynnwys yn y cytundeb'. Mae dryswch yn cael ei ychwanegu gan Arweiniad Rheoli Achosion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer adroddiadau (adran 5 paragraff 2.20) sy'n cynnwys y geiriau 'gan awgrymu cynnwys potensial ar gyfer y cytundeb', sy'n groes i'r canllawiau statudol. Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid (paragraff 5.2) yn ailadrodd yr ail gymal yn y canllawiau statudol, heb gyfeirio at y cyntaf. Felly, nid yw'n syndod bod Timau Troseddau Ieuenctid, rheolwyr achos ac aelodau'r panel yn ddryslyd am yr ymagwedd y dylent eu dilyn.

4.14 Nid ydym yn cadw golwg ar y manylion arfaethedig o ran pa ymyriadau arfaethedig y dylid eu hargymell a'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae'r pwynt yn fach o'i gymharu â'r egwyddorion ynglŷn â sut y dylai paneli a rheolwyr achos ategu ei gilydd; mae angen i'r gwahanol setiau o ganllawiau, fodd bynnag, fod yn gyson â'i gilydd. Mae'r canllawiau statudol, wrth ystyried creu cytundebau (paragraff 8.31 a 8.32), yn canolbwyntio gormod ar yr ystod a chyflwyniad posibl o ymyriadau, a'u cyswllt â ffactorau risg a nodwyd yn yr

asesiad. Nid yw'n adlewyrchu damcaniaethau ymatal[5] a'r ymagwedd seiliedig ar gryfderau sy'n sail i system asesu a chynllunio AssetPlus sy'n cael ei ymgorffori mewn i Dimau Troseddau Ieuenctid.

### Enghraifft ddamcaniaethol yn dangos swyddogaethau cyflenwol gweithwyr achos a phaneli

4.15 Yn ystod yr arolygiad fe ddatblygom enghraifft sy'n seiliedig ar achos cynnar a adolygwyd gennym, a ddefnyddiwyd gennym i ddangos sut y gall rheolwyr achos a phaneli ategu gwaith ei gilydd. Cafodd hyn ei dderbyn yn dda iawn. Rydym wedi ei fireinio a'i gynnwys yma i helpu timau troseddau ieuenctid symud y gwaith hwn yn ei flaen ac wrth wneud hynny, cynyddu'r tebygolrwydd y bydd paneli troseddau ifanc a gorchmynion atgyfeirio'n cyflawni'r amcanion a ddymunir.

[5] Gweler hefyd *Ymatal a phobl ifanc, arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi:* cyhoeddwyd Mai 2016

**Enghraifft ddamcaniaethol yn disgrifio rolau cydategol rheolwr achos ac aelodau'r panel**

**Esiampl achos:** Roedd Jason wedi troseddu yn y cartref teuluol drwy achosi difrod ac ymosod ar ei fam sengl sy'n gweithio. Roedd hyn yn rhan o batrwm cynyddol tymor hir, ond ei gollfarn gyntaf. Roedd Jason wedi diflasu ac yn ddiog, a oedd yn rhwystredigaeth i'w fam, ac nid oedd ganddo fawr ddim i'w wneud yn ei amser hamdden. Roedd ganddo berthynas dda gyda'i chwaer hynaf a oedd yn byw gerllaw. Gwnaeth yn dda yn yr ysgol, yn wahanol i'w ymddygiad yn y cartref. Derbyniodd orchymyn atgyfeirio chwe mis. Ysgrifennodd ei reolwr achos, Crystal, adroddiad saith tudalen a oedd yn canolbwyntio ar yr ymyriadau roedd hi eisiau i gyflawni.

**Beth fyddai mewn cytundeb nodweddiadol?** Byddai'n aml yn cynnwys pump neu fwy o eitemau, beth bynnag cyfnod y gorchymyn, gan gynnwys:

- gwaith i helpu'r person ifanc ddeall a gwella eu perthynas ag eraill
- gwaith ar reoli dicter
- gwaith ar reoleiddio emosiynol ac offer i fynd i'r afael â hynny
- gwaith i ddeall canlyniadau eu troseddu ar gyfer eu hunain ac eraill
- gwaith empathi dioddefwyr, yn aml yn cynnwys llythyr o ymddiheuriad
- gwaith i ddatblygu cymhelliant y person ifanc i newid.

Yn aml, bydd yr eitemau hyn yn cael eu cynnig yn yr adroddiad i'r panel, mwy na thebyg o ran yr ymyriadau penodol neu ffactorau troseddu yn hytrach na'r canlyniad a geisir, ac yn cael ei gario ymlaen i mewn i'r cytundeb yn union yr un fath, neu o leiaf yn debyg iawn i sut y'u cynigwyd. Byddai Jason wedi cael llawer o ddylanwad dros hyn, hyd yn oed os oedd ganddo ddealltwriaeth dda o'i hymddygiad ei hunain.

Yn ogystal, efallai y bydd yna amcan safonol tebyg i weithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid i leihau troseddu, yn ogystal â nifer cytunedig o oriau gwneud iawn anuniongyrchol amhenodol.

**Beth sydd o'i le gyda'r dull hwn?** Gall aelodau'r panel deimlo'n ddi-rym oherwydd eu bod wedi cael eu 'dweud' beth i'w roi yn y cytundeb heb lawer o gyfle i leisio barn drosto. Nid yw Crystal yn cydnabod pwysigrwydd y panel oherwydd, ar ôl cynnal yr asesiad, mae hi'n ystyried ei hun i fod y person a ddylai benderfynu pa waith sydd i'w wneud. Nid oes llawer o ymgysylltiad rhwng y person ifanc ac aelodau'r panel ar sut i ddatrys y sefyllfa, gan ei fod yn ymddangos fel ei bod i gyd wedi'i benderfynu o flaen llaw.

Ni fydd llawer wedi cael ei wneud yn y panel i helpu'r person ifanc ragweld a cheisio sicrhau canlyniad cadarnhaol yn sgil hynny. Mae'r cytundeb yn cael ei orlwytho drwy ddelio â'r problemau, felly nid oes lle i ystyried ffactorau cadarnhaol eraill a allai helpu'r person ifanc lwyddo yn ei datblygiad a chyfrannu at gyflawni bywyd heb droseddu; yn wir, efallai na fod llawer bod y person ifanc yn credu y gallant lwyddo at. Mae mwy yn y cytundeb nag y gellir ei gyflwyno yn ystod cyfnod y gorchymyn. Mae'r cytundeb a'r ymagwedd yn anghyson â'r hyn a ddeallir am sut i gefnogi osgoi troseddu a phwysigrwydd newid naratif mewnol y person ifanc; mae'n edrych yn ôl ar y problemau yn hytrach nag ymlaen at atebion.

**Beth yw'r amcanion allweddol a beth allai helpu eu cyflawni?** Efallai mai'r prif amcanion yn yr achos hwn fydd i Jason a'i fam ddatblygu perthynas gadarnhaol â'i gilydd, er mwyn lleihau ei diflastod a gwneud yn siŵr ei fod mewn hwyliau mwy cadarnhaol pan mae adref. Mae'r rhain yn eithaf gwahanol i'r materion a gyflwynwyd mewn cytundeb nodweddiadol. Mae perthynas Jason gyda'i chwaer yn enghraifft gadarnhaol y gallai ddysgu ohoni. Roedd ei ymddygiad yn yr ysgol yn darparu rhywfaint o anogaeth i gefnogi'r farn y gallai gael ei ysgogi a chymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol.

**Felly sut gallai'r cytundeb edrych a sut caiff ei ddatblygu?** Mae aelodau'r panel, gyda

gwybodaeth lawn o bryderon yr achos a beth mae Crystal yn credu yw'r prif faterion, yn cael trafodaeth gyda Jason am sut y gallai ei fywyd edrych yn y dyfodol, sut y gallai gyrraedd yno a pha bethau yn ei fywyd gallai ei helpu i atgyfnerthu unrhyw gynnydd a wneir. Gallai ei fam ddweud, pan ofynnwyd, ei bod am iddynt yrru ymlaen yn well ac i Jason gyfrannu mwy o gwmpas y tŷ. Efallai y byddant yn cytuno byddai defnydd o wneud iawn uniongyrchol yn helpu Jason ddechrau arni.

Yn dilyn y drafodaeth efallai y byddant yn cytuno mai'r ddwy eitem gyntaf ar y cytundeb yw:

*Bydd fy mam a minnau yn gwella ein perthynas â'n gilydd.*

*Byddaf yn helpu fy mam drwy wneud y golchi, y glanhau neu dasgau eraill yn y cartref am o leiaf dair awr bob wythnos.*

Er mwyn cefnogi hynny a chyflwyno esiampl gadarnhaol o sut all lwyddiant edrych, mae'r panel yn ei annog i gytuno i drydydd amcan:

*Byddaf yn ceisio cadw i fyny fy mherthynas dda gyda fy chwaer a dysgu ohono er mwyn gwella sut yr wyf yn gyrru ymlaen gyda fy mam.*

Yna mae lle ar y cytundeb i ystyried ffactorau cadarnhaol eraill a allai helpu i ddatblygu hunan-barch Jason a'i ail-ymgyfuno yn y gymuned leol, megis:

*Byddaf yn ceisio parhau i wneud yn dda yn yr ysgol.*

*Byddaf yn ceisio dod o hyd i bethau difyr i'w gwneud yn fy amser sbâr.*

Ac yna, rhan olaf y cytundeb, efallai gellir hyd yn oed cynnwys geiriad safonol, megis:

*Byddaf yn gweithio'n gadarnhaol gyda Crystal fy ngweithiwr yn y Tîm Troseddau Ieuenctid, ac eraill, i fy helpu i gyflawni'r nodau hyn.*

**Felly beth sydd mor wahanol a sut mae'n helpu'r rolau i ategu ei gilydd?** Gyda'r un nifer o amcanion mae'r cytundeb bellach yn gliriach ac yn fwy ystyrlon i Jason ac yn rhoi darlun sy'n edrych i'r dyfodol o'r sut all llwyddiant yn ei fywyd edrych. Mae lle am gyfer amcanion cadarnhaol sy'n atgyfnerthu'r amcanion cychwynnol, ac yn cefnogi osgoi troseddu.

Mae aelodau'r panel wedi cyd-drafod â Jason i ystyried sut i wneud pethau'n iawn, sut i gyrraedd yno a sut all fod yn aelod integredig gadarnhaol o gymdeithas edrych yn ei sefyllfa ef. Yna maen nhw wedi pasio'r cwestiwn o 'sut' i gael Jason at y pwynt hwnnw yn ôl i Crystal, y rheolwr achos. Bydd hi'n defnyddio ei sgiliau, ymyriadau ac adnoddau (gan gynnwys, er enghraifft, ar gyfer sesiynau rheoli dicter os yw hi'n credu bod eu hangen) i weithio gyda Jason i gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt a helpu i symud ymlaen ar hyd ei daith o newid. Mae ganddi'r hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid, cyn belled ag y bod hi'n parhau i ganolbwyntio ei sylw ar yr amcanion hynny.

Mae'r panel adolygu, yn hytrach nag ail-edrych ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud, y bydd Crystal wedi gwneud pan mae hi'n ysgrifennu adroddiad yr adolygiad, yn hytrach yn gallu ystyried i ba raddau mae Jason wedi cyflawni'r amcanion edrych i'r dyfodol a thrafod cynnydd ar hyd ei daith gydag ef. Mae rolau gwahanol gan Crystal a'r panel. Maent yn ategu ei gilydd yn hytrach na dyblygu neu wrthdaro.

# 5. Paneli troseddau ieuenctid

Mae'r bennod hon yn archwilio pa mor dda roedd paneli yn gweithredu a'r ffactorau a ddylanwadodd ar hynny.

**Sut arolygom hyn**

Arolygom 15 panel troseddwyr ifanc. Arolygom gofnodion cyfarfodydd panel, siarad â phobl ifanc a rhieni/gofalwyr llawer o'r rhain, a gofyn iddynt am eu profiad o baneli.

Cyfarfuom â grŵp ffocws o wirfoddolwyr a'r aelod(au) o'r staff sy'n gyfrifol am gydlynu paneli ym mhob un o'r ardaloedd yr ymwelom â hwy. Fe archwiliom dystiolaeth ddogfennol arall hefyd.

5.1 Roedd aelodau'r panel yn ceisio'n galed i ddarparu paneli o ansawdd da, gan eu bod yn deall mai dyna fel y dylent fod; roedd eu hansawdd, fodd bynnag, yn amrywio'n sylweddol, gyda gwahanol raddau o sgiliau, hyder a dealltwriaeth yn cael eu harddangos. Roedd y paneli gorau yn cael eu cyflwyno gan y gwirfoddolwyr hynny gyda'r lefelau uchaf o broffesiynoldeb, sgiliau a dealltwriaeth o'r hyn y roeddent yn ceisio ei gyflawni. Roedd cyswllt clir rhwng ymrwymiad i hyfforddiant, goruchwyliaeth a goruchwylio paneli a gwirfoddolwyr, ac ansawdd y paneli hynny.

**Dyfyniadau:** pan ofynnwyd **pa wahaniaeth mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud i'r paneli**, dywedodd un aelod*: "Unwaith bod y bobl ifanc yn gwybod eich bod ddim yn rhan o'r system, pan maen nhw'n bod yn wahanol, gallwch ddweud, 'rydym yma fel gwirfoddolwyr, ac rydym yma oherwydd ein bod yn gofalu am beth sy'n digwydd i ti', ac mae hynny wir yn helpu pobl ifanc."* Dywedodd un arall: *"Nid ydym yma i farnu, mae'r llys eisoes wedi gwneud hynny, rydym yma i chwilio am ffordd ymlaen."*

Cafodd y dyfyniad cyntaf ei adleisio'n fawr gan y bobl ifanc i ni gwrdd â hwy. Mae un dyfyniad sy'n crynhoi'r agwedd nifer o'r bobl ifanc: *"Rwy'n deall aelodau'r panel. Does dim rhaid iddynt wneud hynny. Maen nhw'n gwneud hynny oherwydd eu bod eisiau a'u bod yn gofalu amdanom." . ."*

### Gwybodaeth a ddarperir o flaen llaw i baneli

5.2 Roedd i ba raddau y darparwyd adroddiadau gorchmynion atgyfeirio o flaen llaw i aelodau'r panel yn amrywio. Mae'r canllawiau statudol (paragraff 7.3) yn eu gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad ar gael o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y panel Nid oedd hyn yn digwydd yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd adroddiadau yn aml yn cael eu darparu wrth gyrraedd, fel arfer 15 i 30 munud cyn y panel. Yn aml, roedd rhaid eu hystyried ar frys. Mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid nid oedd y panel oedd yn cychwyn darllen a thrafod yr adroddiad nes bod y person ifanc wedi cyrraedd ac yn aros y tu allan - roedd hyn yn annerbyniol. Dylai aelodau'r Panel gael digon o amser i ddarllen ac ystyried yr adroddiad cyn y panel.

**Esiampl o arfer nodedig: sicrhau bod adroddiad gorchymyn atgyfeirio ar gael**

Er mwyn goresgyn anawsterau o ran cyfrinachedd ac osgoi'r gost o anfon adroddiadau allan trwy ddefnyddio post diogel, roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn cynhyrchu fersiwn dienw i'w anfon allan, ac yna'n darparu copi personol wrth gyrraedd. Roedd Tîm Troseddau Ieuenctid arall yn rhoi'r adroddiad mewn bag diogelwch cyn ei roi mewn amlen a'i hanfon.

5.3 Roedd ansawdd yr adroddiadau yn amrywio'n sylweddol. Roedd nifer yn rhy hir. Yn ein barn ni roedd hyn oherwydd y diffyg dealltwriaeth a ddisgrifir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, gyda gormod o sylw yn cael ei roi i gynnwys yr holl ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu. Dylai adroddiad da weithredu fel man cychwyn trafodaeth, gan ddarparu digon o wybodaeth i helpu'r panel ofyn cwestiynau perthnasol a deall y materion, ond nid mor hir eu bod yn cau'r drafodaeth i lawr oherwydd bod dim i'w ychwanegu.

5.4 Roedd ychydig o achosion lle roedd dioddefwyr neu rieni/gofalwyr wedi gofyn i gwrdd â'r panel heb y person ifanc, lle'r oedd pethau'n cael eu dweud nad oeddent am i'r person ifanc i wybod. Weithiau mae angen i'r panel gael gwybod am ffactorau amrywiaeth pwysig neu bryderon diogelwch. Fel arall, mae hyn yn amhriodol. Mae'n hanfodol i waith y panel ei fod mor agored a thryloyw gyda'r person ifanc ac y maen nhw'n disgwyl i'r person ifanc fod gyda nhw.

5.5 Roedd effeithiolrwydd trafodaethau'r paneli yn cael eu peryglu ymhellach gan ychydig o bobl ifanc neu rieni/gofalwyr yn cael y cyfle i ddarllen, trafod a deall yr adroddiad i'r panel cyn iddynt gyrraedd. Dywedwyd wrthym nad oedd dim amser yn y cyfnod rhwng y llys a'r panel i gyflawni hyn, er bod 20 diwrnod gwaith fel arfer ar gael. Nid ydym yn derbyn y ddadl honno, yr ydym yn ystyried i fod yn symptom o brosesau aneffeithlon sy'n anwybyddu pwysigrwydd datblygu cyswllt o ansawdd da yn gynnar gyda phobl ifanc. Mae hawl gan bobl ifanc i ddeall beth sydd wedi cael ei ysgrifennu amdanynt a pham, ac i gael cyfle i herio a thrafod hynny cyn iddo gael ei gwblhau. Er efallai na fydd hynny'n newid yr adroddiad, mae'n bosib bydd y gwaith yn cychwyn yn well os yw pobl ifanc yn gwybod ymlaen llaw pam fod pethau wedi cael eu hysgrifennu yn hytrach na'u gweld am y tro cyntaf yn y panel.

### Cyd-drafod gyda phobl ifanc a rhieni/gofalwyr

**Dyfyniadau:** Dywedodd aelod o'r panel wrthym: *"gallwch gael mwy allan o bobl gyda gwên. . . rydym am eu helpu i roi'r gorau i droseddu . . . nid ydym am greu rhwystrau i hynny . . . mae rhai ohonynt erioed wedi cael gwên neu ysgwyd llaw cyn iddynt gwrdd â ni . . maent yn gwerthfawrogi hynny."* Meddai un arall: *"rydym bob amser yn sefyll i fyny pan fyddant yn dod i mewn ac yn dangos parch atynt . . . mae'n bwysig dangos cwrteisi sylfaenol a pharch iddynt os ydym am iddynt ei ddangos i ni.* "

5.6 Mae ansawdd y rhyngweithio rhwng aelodau'r panel, pobl ifanc ac eraill yn hanfodol i banel effeithiol. Mae rhai paneli ymdrechu'n galed i gael y person ifanc i fynegi eu barn am yr hyn oedd wedi digwydd, a pham ei fod wedi digwydd, ymhelaethu ar ac esbonio'r adroddiad, a gwneud yn siŵr eu bod yn ymgysylltu'n gadarnhaol. Roedd eraill yn rhy barod i roi'r gorau iddi ar yr arwydd cyntaf o amharodrwydd neu swildod ar ran y person ifanc, ac yn derbyn yr adroddiad fel ei ysgrifennwyd heb drafodaeth bellach yn hytrach na cheisio strategaethau amgen i ddechrau sgwrs. Pan roedd paneli yn dyfalbarhau, roeddent fel arfer yn llwyddo. Ond fe welsom rywfaint o arfer gwael hefyd, ceir enghreifftiau o'r rhain yn y mewnosodiad canlynol.

**Esiamplau o arfer gwael: gwelwyd wrth arsylwi paneli**

- siglodd aelod o'r panel ei bys ar y person ifanc, gan feddwl y byddai'n eu gwneud yn fwy tebygol o wrando a deall
- pobl ifanc a rhieni/gofalwyr ddim yn cael y cwrteisi sylfaenol o gael cyfle i gyflwyno eu hunain
- achos lle'r oedd yn amlwg anawsterau cyfathrebu wedi bod, ond na wnaed unrhyw ymgais i drafod gyda'r rhai oedd yn bresennol sut i weithio gyda'i gilydd i'w goresgyn

- rhiant/gofalwr a oedd angen cyfieithydd, ond roedd y panel yn parhau ar eu cyflymder arferol heb gymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen ar gyfer dehongli a gwirio dealltwriaeth
- gwasanaeth gwefus yn cael ei dalu i wneud yn siŵr bod y person ifanc yn deall beth oedd yn cael ei ddweud a'r hyn y disgwylid iddynt gytuno i.

5.7 Fe welsom enghreifftiau cadarnhaol o baneli yn ceisio mewnbwn y person ifanc ar beth ddylid ei gynnwys yn y cytundeb a cheisio ei bersonoli, yn enwedig yn Wakefield a Lerpwl. Roedd gormod o achosion, fodd bynnag, lle nad oedd hyn yn ystyrlon ac mewn gwirionedd roedd gweithiwr yn dweud wrth y bobl ifanc beth fyddai yn y cytundeb. Mewn llawer o achosion penderfynodd aelodau'r panel ar y cynnwys cyn i'r person ifanc ddod i mewn i'r ystafell. Yn yr achosion hyn ni ellid dylanwadu arno gan drafodaeth am bryderon neu ddiddordebau'r person ifanc, nac eu barn am sut i wneud pethau'n iawn. Roedd hyn yn ôl pob tebyg o ganlyniad i'r materion a drafodwyd ym mhennod pedwar o'r adroddiad hwn. Roedd mwyafrif aelodau'r panel yn gwybod y gallent ddatblygu ac addasu'r cytundeb fe y mynnent. Yn siomedig, nid oedd y lefel honno o berchnogaeth a fynegwyd yn amlwg mewn llawer o'r paneli a arolygom neu'r achosion a adolygom.

5.8 Er bod pob panel a welsom yn gofyn i'r person ifanc a oeddent yn deall ac yn cytuno gyda'r cytundeb cyn gofyn iddynt ei lofnodi, yn aml roedd yn gyfyngedig i ddarllen yn gyflym trwy'r ddogfen a chwestiwn caeedig yn arwain at ateb 'Ie / Na'. Nid yw hynny'n fodd effeithiol o drafod wrth osod a chytuno ar gytundeb. Mewn rhai achosion, nid oedd yr arolygwyr eu hunain yn deall yr amcanion, a oedd yn aml wedi'u cyflwyno ar ffurf jargon proffesiynol yn hytrach nag mewn iaith ystyrlon i berson lleyg, heb sôn am berson ifanc. Anaml y maent yn datgan yn glir y canlyniad roeddent ei eisiau.

5.9 Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn ceisio sicrhau parhad aelodau'r panel trwy gydol y gorchymyn, fel sy'n ofynnol gan ganllawiau statudol. Mae'n bwysig bod y nifer o wahanol bobl mae'n rhaid i berson ifanc ailadrodd eu stori i yn cael ei leihau. Lle nad oedd hyn yn digwydd roedd weithiau oherwydd bod cyfleustra gweinyddol yn bwysicach na bodloni'r egwyddor hon. Pan roedd yn digwydd, roedd yn werthfawr. Fe welsom achosion lle roedd yn cyfrannu at ganlyniad cadarnhaol (am enghreifftiau gweler y paragraff canlynol a'r adolygiad achos ar ddiwedd pennod tri).

### Barn rhiant / gofalwr a phobl ifanc

5.10 Roedd nifer o bobl ifanc y bu i ni siarad â hwy yn gadarnhaol am eu hymwneud â'r panel, a'r trafodaethau a gynhaliwyd. Pan roeddent yn cael eu darparu gyda'r cyfle i ddweud sut roeddent yn teimlo, roeddent yn gwerthfawrogi hynny; er roeddent hefyd yn dweud nad oedd bob amser yn gwneud gwahaniaeth i'r hyn yr oedd disgwyl iddynt gytuno i. Eglurodd rhai pobl ifanc sut y roeddent wedi gwerthfawrogi trafod y cynnydd a wnaethant yn ystod paneli adolygu, gyda phobl y maent eisoes yn eu hadnabod ac a oedd felly'n gallu cydnabod yr ymdrechion roeddent wedi eu gwneud, a sut roedd hyn wedi helpu i adeiladu neu atgyfnerthu eu hunan-barch a'u cymell i barhau.

**Dyfyniadau:** mae rhai safbwyntiau a fynegwyd gan bobl ifanc yn crynhoi'r cryfderau allweddol a gwendid allweddol yn y ffordd y mae llawer o baneli yn gweithio:

*"Rwy'n deall paneli, maen nhw'n ei wneud oherwydd eu bod yn wirfoddolwyr ac yn gofalu amdanom, nid oherwydd bod rhaid iddyn nhw, sy'n gwneud gwahaniaeth mawr, y ffaith bod rhywun yn gofalu pan nad oes rhaid iddynt."*

*"Roedd paneli yn gwneud i mi deimlo'n well am fi fy hun gan fod popeth ddwedon nhw yn gadarnhaol . . . Yn y pen draw roeddwn yn teimlo'n dda am fi fy hun oherwydd sut roedden nhw'n fy nhrin."*

*"Byddwn wedi hoffi cael dweud fy marn am yr hyn a aeth yn y cytundeb. . . roedd yn teimlo fel bod y panel eisoes wedi penderfynu beth oedd yn mynd ynddo, felly beth oedd y pwynt o ddweud fy mod yn cael dweud fy marn. . ."*

5.11 Roedd rhai rhieni/gofalwyr a oedd wedi mynychu paneli hefyd yn beirniadu cyn lleied o gyfle cawson nhw a'r bobl ifanc i leisio eu barn wrth gytuno ar y cytundebau.

**Esiampl o arfer nodedig: Monitro barn pobl ifanc o baneli yn Sutton**

Gofynnodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Sutton i bobl ifanc lenwi ffurflen fonitro ar ôl mynychu panel. Roedd y sylwadau yn cynnwys materion yn ymwneud â dealltwriaeth o'r cytundebau a gorchmynion. Roedd gwaith i ymateb i hyn yn cynnwys datblygu taflen fwy priodol ac roedd therapydd lleferydd ac iaith yn edrych ar sut i wella cyflwyniad cytundebau.

### Yr amgylchedd

5.12 Mae sut mae aelodau'r panel yn gwisgo a chyflwyno'u hunain yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd y cyd-drafod. Yn y paneli gorau a welsom, roedd yr aelodau dilyn cod gwisg smart hamddenol, yn hytrach na ffurfiol, ac roedd hynny'n ddigon i ddangos parch at y person ifanc ac eraill, ond nid mor ffurfiol ei bod yn credu rhwystr i gydweithredu â hwy.

**Esiampl o arfer nodedig: Swyddog cwrdd a chyfarch Lerpwl**

Defnyddiodd Tîm Troseddau Ieuenctid Lerpwl weithiwr sesiynol i weithredu fel swyddog cwrdd a chyfarch i groesawu pawb i'r lleoliad lle cynhelir y panel. Roedd y swyddog yn croesawu'r sawl a oedd yn mynychu'r panel, yn gofalu amdanynt tra roeddent yn aros i'r panel fod yn barod, ac yna'n mynd â nhw i mewn i ystafell y panel a'u cyflwyno i'r aelodau.

5.13 Mae trefn yr ystafell a ddefnyddir ar gyfer y panel yn bwysig o ran dylanwadu ar ansawdd y cyd-drafod. Nid oedd gan y paneli gorau bwrdd rhwng cyfranogwyr. Roeddent yn eistedd mewn cylch, yn aml ar gadeiriau isel cyfforddus. Clywsom enghreifftiau o sut roedd awyrgylch hamddenol yn arwain at drafodaeth fwy effeithiol a mwy o debygolrwydd o gyfranogiad cadarnhaol gan y person ifanc. Roedd y rhan fwyaf wedi'u cynnull o amgylch bwrdd, weithiau un mawr fel un ystafell gyfarfod a fyddai wedi bod yn frawychus i'r person ifanc, gydag aelodau'r panel a'r bobl ifanc yn eistedd gyferbyn â'i gilydd. Roedd rhai paneli ymdrechu'n galed i oresgyn effaith hyn, ond byddai wedi bod yn well ganddynt beidio â chael bwrdd o gwbl. Pan gawsant eu herio, roedd y rhan fwyaf o bobl yn derbyn na fod bwrdd mawr yn briodol, ond nid oedd digon yn cael ei wneud i herio ei ddefnydd. Roedd angen rhoi mwy o sylw i'r awyrgylch a sicrhau ei fod yn cefnogi cyd-drafod â phobl ifanc.

**Esiampl o arfer nodedig: trefniadau panel ar gyfer person ifanc ar y sbectrwm awtistig**

Roedd person ifanc ar y sbectrwm awtistig. Roedd ganddo anawsterau cyfathrebu difrifol a oedd yn rhwystr yn ei ymgysylltiad â'r panel. Roedd cadeirydd y panel a'r person ifanc yn eistedd ar y llawr. Roedd aelod arall y panel yn eistedd yn y cefndir er mwyn iddi allu cyfrannu at y cytundeb, ond hefyd yn lleihau anawsterau cyfathrebu yn ystod trafodaethau. Roedd y panel yn gallu ennyn diddordeb y person ifanc a sicrhau ei fod yn deall beth oedd yn digwydd. Fe gyfrannodd at a chytuno ar gytundeb priodol.

### Sgript y Panel

5.14 Roedd llawer o baneli yn dilyn sgript, gyda lefel y manylion ynddynt yn amrywio. Roeddem yn cydnabod y fantais o sgript amlinellol ar gyfer annog dull cyson, i gefnogi aelodau llai profiadol, ac fel rhestr wirio i sicrhau bod popeth yn cael ei drafod. Fe welsom rhai enghreifftiau, fodd bynnag, lle roedd gwneud gormod o ddefnydd o'r sgript yn arwain at banel nad oedd yn naturiol; lle roedd y panel yn teimlo bod rhaid iddynt ddilyn y sgript ac ailadrodd cwestiynau yn y drefn a osodwyd, yn hytrach na bod yn hyblyg i ymateb i wybodaeth a ddarparwyd eisoes. Mewn un enghraifft roedd yr ymagwedd or-gywir yn ei gwneud yn brofiad anodd i'r dioddefwr, a oedd yn bresennol, ac ar gyfer y person ifanc.

### Presenoldeb yn y panel

5.15 Roedd pwy fyddai'n mynychu'r panel o'r Tîm Troseddau Ieuenctid ac yn gweithredu fel ymgynghorydd i'r panel yn amrywio'n fawr, gan amrywio o gydlynydd i reolwr gweithredol. Roedd pob ardal yn teimlo'n gryf am rinweddau ei fodel ei hun. Fe glywsom yr un dadleuon

o blaid model mewn rhai lleoliadau a ddefnyddiwyd yn erbyn yr un model mewn eraill. Er enghraifft, dywedodd rhai bod cael y rheolwr achos presennol yn gefnogol i'r person ifanc tra dywedodd eraill bod y person ifanc yn fwy tebygol o fod yn agored a datgelu gwybodaeth os nad yw'r rheolwr achos a gynhaliodd yr asesiad yn bresennol (ac fe welsom enghreifftiau o hynny).

5.16 Nid oes barn gennym a ran pa un o'r amryw fodelau i gefnogi'r panel sydd orau a phwy arall, os unrhyw un, ddylai fynychu. Pa bynnag fodel a ddewisir, rhaid i'r Tîm Troseddau Ieuenctid sicrhau bod yr egwyddorion sy'n tanategu gwaith y panel yn cael eu bodloni. Os yw'r adroddiad yn ddigon da, nid oes angen i'r rheolwr achos fod yn bresennol i ymhelaethu ar hynny, heblaw am yr achosion mwyaf cymhleth a'r rhai sy'n agos at y trothwy o garchar. Gall mynnu ar bresenoldeb rheolwr achos weithiau fod yn enghreifftiol o'r problemau yr ydym yn eu disgrifio ym mhennod pedwar. Os ydynt yn mynychu rhaid iddynt ddeall ffiniau priodol ar eu cyfranogiad, a glynu atynt. Mae dadl gryfach dros reolwyr achos yn mynychu paneli adolygu, yn enwedig pan fod camau gorfodi yn cael eu hystyried.

**Esiampl o arfer nodedig: gwneud penderfyniadau amddiffynadwy mewn panel adolygu**

Cynhaliwyd y panel hwn er mwyn ystyried a ddylai'r achos gael ei anfon yn ôl i'r llys yn dilyn achos o beidio â chydymffurfio. Mynychodd y rheolwr achos a'r person ifanc. Eglurodd y person ifanc y rhesymau dros eu methiant i gydymffurfio. Roedd y cadeirydd yn rheoli'r trafodion; holi a phrofi barn y rheolwr achos bod cydymffurfiaeth, tra bod yn annerbyniol, yn dangos arwyddion o wella a dylid rhoi un cyfle olaf. Yna fe brofwyd y tebygolrwydd o ganlyniad cadarnhaol gyda'r person ifanc. Roedd yn enghraifft o banel hyderus, cymwys yn cyflawni'i rôl gydag annibyniaeth hyderus. Y canlyniad oedd penderfyniad amddiffynadwy i ohirio toriad, gyda chamau gweithredu clir yn eu lle os byddai'r sefyllfa'n codi eto.

5.17 Mewn llawer o'r achosion a arolygwyd gennym nid oeddem yn gallu dod o hyd i wybodaeth dda am yr hyn oedd wedi digwydd yn y panel, yr hyn a drafodwyd a sut roedd y person ifanc wedi ymateb. Doedd y wybodaeth bwysig hynny, felly, ddim ar gael i unrhyw un arall a allai fod wedi ei angen chwaith, gan gynnwys yn y dyfodol, trwy'r cofnod achos. Roedd hyn hefyd yn thema barhaus yn ein harolygiadau ieuenctid rheolaidd. Mae'r cyfarfod y panel yn un o'r cysylltiadau pwysicaf mewn achos gorchymyn atgyfeirio, ac eto yn nodweddiadol, dyma oedd yr un a oedd yn cael ei gofnodi waethaf.

**Esiampl o arfer nodedig: cofnod o gyfarfodydd panel**

Yn Sutton fe gynhyrchodd y cydlynydd gorchymyn atgyfeirio, a fynychodd pob panel, gofnod cynhwysfawr o'r hyn a drafodwyd, safbwyntiau a fynegwyd, ac ymateb y person ifanc. Fe roddodd hi hwn ar gofnod yr achos fel cyswllt. Fe siaradodd hi hefyd â'r rheolwr achos y bore wedyn a thrafod yr hyn a ddigwyddodd. Roedd hyn yn ffordd effeithiol i friffio'r rheolwr achos, a darparu gwybodaeth glir i unrhyw un arall a allai fod angen gwybod am y cyfarfod.

### Clywed llais y dioddefwr yn y panel

5.18 Mae'r holl Dimau Troseddau Ieuenctid yn cydnabod nad oes digon o ddioddefwyr yn mynychu panel. Roed i ba raddau mae llais y dioddefwr yn cael ei glywed yn glir yn y panel yn amrywio o anaml iawn mewn rhai Timau Troseddau Ieuenctid i'r mwyafrif o achosion mewn rhai eraill. Mae amlder hyn yn arwydd o ymrwymiad y Tîm Troseddau Ieuenctid unigol i glywed llais y dioddefwr, yn ychwanegol at effeithiolrwydd eu systemau cyswllt dioddefwyr. Mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid roeddem yn falch o weld parodrwydd i atal safonau cenedlaethol dros dro o ran amseroldeb y panel, lle mynegodd y dioddefwr

ddymuniad i wneud cyfraniad ond na ellid ei baratoi mewn pryd. Roedd hyn yn briodol, ac yn helpu i sicrhau bod eu dymuniadau yn cael eu bodloni. Pryd bynnag y buom yn adolygu achos ble roedd y dioddefwr wedi bod yn bresennol roedd tystiolaeth ei fod wedi bod yn brofiad cadarnhaol grymus iddynt, yn enwedig lle roeddent hefyd yn rhiant/gofalwr, ac yn aml hefyd ar gyfer y person ifanc.

5.19 Fe welsom y gyfran uchaf o ddioddefwyr yn mynychu paneli yn Wiltshire. Roedd ganddynt amcan clir i gael y dioddefwr i ymgysylltu ar adeg a oedd yn addas iddynt hwy. Roeddent yn credu yn y gwerth i'r dioddefwr i'r fath raddau eu bod yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod dioddefwyr yn deall y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig, yn bennaf drwy roi esboniad clir. Yna, roeddent yn paratoi ar gyfer y risgiau ac yn eu rheoli'n dda.

5.20 Nid oedd digon o ystyriaeth yn gyffredinol yn cael ei roi i gadw'r drws ar agor i glywed llais y dioddefwr mewn panel dilynol, yn hytrach na'r un cyntaf, neu mewn awyrgylch wahanol neu ar adeg wahanol. Dylai'r arweiniad ganolbwyntio llai ar gael y dioddefwr i banel a mwy ar sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod dymuniadau'n ystyried ble, pryd a sut y mae fwyaf addas ar eu cyfer.

**Esiampl o arfer nodedig: dioddefwr yn dewis mynychu panel adolygu wedi gwrthod unrhyw gydweithredu cyn hynny**

Roedd y dioddefwr eisiau gwybod am gynnydd y person ifanc, ar ôl dweud yn flaenorol ei bod ddim eisiau unrhyw gysylltiad. Roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi cynnal cyswllt anffurfiol gyda nhw. Cyflwynwyd eu barn a'u pryderon yn y panel adolygu. Roedd hyn yn fodd o hyrwyddo neges gadarnhaol a grymus i'r person ifanc ac roedd yn gymorth wrth helpu ei gymell i gyflawni ei botensial a symud ymlaen.

5.21 Roedd sut roedd llais y dioddefwr yn cael ei glywed yn amrywio'n sylweddol. O bryd i'w gilydd roeddent yn mynychu'r panel, bob tro gyda chefnogaeth y gweithiwr neu berson arall roeddent wedi bod mewn cysylltiad â hwy. Mewn rhai achosion, er enghraifft Wiltshire a Wakefield, roedd y person a oedd wedi cwrdd â'r dioddefwr yn mynychu'r panel ac yn cyflwyno datganiad ar eu rhan, os nad oeddent yn dymuno mynychu ond eu bod eisiau mynegi eu safbwyntiau neu gael atebion i'w cwestiynau. Roedd cyflwyno yn y modd hwn yn ychwanegu at y pŵer a'r effaith gan ei fod yn cynnwys ymdeimlad o'u hemosiwn, mwy na'u geiriau yn unig. Mewn rhai achosion, roedd y gweithiwr dioddefwr hefyd yn mynychu pob panel adolygu. Roedd hyn yn cadw ffocws ar yr effaith ar ddioddefwr. Weithiau roedd tystiolaeth o ddiddordeb parhaus ar y dioddefwr yn helpu cymell y person ifanc.

5.22 Mewn enghreifftiau eraill fe welsom y datganiad dioddefwr yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad, a oedd yn cael llawer llai o effaith. Fe welsom hefyd enghreifftiau lle roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gwneud defnydd o wybodaeth o'r papurau erlyniad neu ddisgrifiad o effaith generig ar ddioddefwr yn unig, gan fod dim cyswllt wedi cael ei wneud â'r dioddefwr. Nid oedd hyn yn briodol yn y panel, er y gallai fod wedi bod mewn gwaith ymyrraeth, gan nad oedd yn cyflwyno llais y dioddefwr ei hun. Roedd Conwy a Sir Ddinbych wedi datblygu dioddefwr rhithwir, i'w defnyddio mewn cyfarfodydd panel pan roedd y dioddefwr yn absennol, i atgyfnerthu'r ffaith bod cyfranogwr pwysig ar goll.

**Esiampl o arfer nodedig: mam (dioddefwr) yn cael budd o fynychu panel**

Yn Lerpwl, y dioddefwr oedd hefyd mam y person ifanc. Defnyddiodd aelodau'r panel eu profiad i helpu'r fam fynegi sut roedd hi'n teimlo am beth oedd wedi digwydd, a sicrhau bod y person ifanc yn deall effaith eu hymddygiad ar ei fam a'r gost i'r uned deuluol yn ariannol ac fel arall yn (troi allan posibl o'r cartref). Helpodd hyn iddynt ymrwymo i wella eu perthynas ac i'r person ifanc wella ei ymddygiad.

5.23 Fe drefnodd Wiltshire a Chonwy a Sir Ddinbych leoliad ac amser cyfarfod cyntaf y panel gan ymgynghori â'r dioddefwr; roedd hyn, fodd bynnag, yn llai cyffredin mewn ardaloedd eraill ac mewn rhai achosion yn eithriadol o brin. Roedd cyfleustra a threfn weinyddol weithiau yn cymryd blaenoriaeth dros hyblygrwydd i fodloni dymuniadau'r dioddefwr. Dywedwyd wrthym bob amser y 'byddai' panel yn cael ei newid os byddai'r dioddefwr yn gofyn amdano, ond mae hynny'n eithaf gwahanol i fynd ati i sicrhau eu bod yn cael cyfle go iawn i wneud hynny.

5.24 Fe welsom dueddiad i gynnal cyfarfodydd y panel yn adeilad y Tîm Troseddau Ieuenctid yn hytrach nag mewn lleoliadau cymunedol eraill, er nad oedd hyn yn wir ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid. Ymddengys bod hyn yn ganlyniad i gau lleoliadau megis canolfannau ieuenctid, ynghyd â diffyg adnoddau sydd ar gael i logi ystafelloedd. Dylai Timau Troseddau Ieuenctid geisio ffurfio cysylltiadau gwell â sefydliadau cymunedol eraill, er mwyn cael mynediad at fwy o gyfleusterau lleol ond hefyd i agor cyfleoedd gwneud iawn ychwanegol a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith a wneir.

### Penderfynu ar gamau gwneud iawn

5.25 Roedd paneli yn penderfynu ar nifer yr oriau gwneud iawn, fel arfer yn unol â chyfarwyddyd statudol; er mewn un gwneud iawn Tîm Troseddau Ieuenctid, roedd yn gyffredin cynnwys mwy na'r hyn a nodir yn y cyfarwyddyd. Roedd hyn yn cael ei wneud i weddu sut roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn rheoli ei waith gwneud iawn, sy'n annerbyniol.

5.26 Roedd y wybodaeth a oedd gan baneli ar y prosiectau gwneud iawn a oedd ar gael yn amrywio. Heb wybodaeth gyfredol nid oedd aelodau'r panel yn gallu cael trafodaeth ystyrlon gyda'r person ifanc am ba brosiectau fyddai mwyaf gwerthfawr. Mewn rhai achosion, roedd y panel yn ymwybodol o'r cyfleoedd a thrafodwyd gyda'r bobl ifanc hyn, ond roeddent yn dal i adael i'r Tîm Troseddau Ieuenctid benderfynu beth i'w gyflwyno. Roedd gormod o dderbyniad o'r anawsterau gweinyddol y gallai galluogi'r panel i ddewis prosiect gwneud iawn priodol eu hachosi. Doedd dim digon o ymdrech i oresgyn hyn.

**Esiampl o arfer nodedig: cynghori'r panel ar gyfleoedd gwneud iawn addas**

Mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid, bu'r gweithiwr gwneud iawn gwrdd â'r person ifanc cyn y panel er mwyn deall beth yw eu ffactorau risg, eu hanghenion a'u diddordebau, cyn gwneud aelodau'r panel yn ymwybodol o'r prosiectau gwneud iawn a oedd ar gael ar hyn o bryd a pha rai allai fod fwyaf addas. Galluogodd hyn i'r panel drafod y rhain gyda'r person ifanc, helpu eu cymell i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gwaith gwneud iawn a sicrhau bod y cytundeb yn fwy personol i'w sefyllfa.

5.27 Nid oes unrhyw beth yn y cyfarwyddyd statudol sy'n gofyn yn benodol i baneli ddewis y prosiectau gwneud iawn, er ei fod yn awgrymu hyn yn gryf. Mae peidio â gwneud hynny yn gallu bod yn gyfle coll i gysylltu gwneud yn iawn â'r canlyniadau eraill a gytunwyd arnynt yn y cytundeb a chefnogi eu cyflawniad. Lle roedd hynny'n digwydd, roeddem yn ei

ystyried yn arfer da. Roedd yn helpu ailddiffinio gwneud iawn o fod yn gosb yn unig, ac yn hytrach roedd yn rhan integredig o'r datrysiad ynghylch sut y byddai'r niwed yn cael ei unioni a'r gyfradd troseddu yn cael ei ostwng.

**Esiampl o arfer nodedig: canllaw gwneud iawn Wakefield ar gyfer paneli**

Roedd Tîm Troseddau Ieuenctid Wakefield wedi cynhyrchu canllaw ar gyfer ei aelodau panel a oedd yn nodi'r holl brosiectau a oedd yn rhedeg yn rheolaidd, pryd roeddent yn cael eu cynnal, beth roeddent yn eu cynnwys ac ar gyfer pa bobl ifanc roeddent fwyaf addas. Roedd hyn yn amhrisiadwy i'r paneli yn eu trafodaethau â phobl ifanc wrth ystyried cyfleoedd gwneud yn iawn anuniongyrchol a sicrhau bod y cytundeb yn fwy manwl gywir.

5.28 Wrth drafod y mater hwn, roedd y rhan fwyaf o reolwyr achos yn cydnabod y byddai'n bosibl gwirio pa brosiectau oedd ar gael ac yn fwyaf addas cyn y panel a gwneud y panel yn ymwybodol, a thrwy hynny galluogi trafodaeth fwy gwybodus gyda'r person ifanc.

**Esiampl o arfer nodedig: panel Lerpwl yn trafod opsiynau gwneud yn iawn**

Roedd person ifanc wedi tyfu i fyny yn bennaf gyda'i fam-gu, a oedd hefyd yn gofalu am ddau berson anabl. Roedd wedi troseddu yn ei herbyn hi. Nid oedd yn briodol gwneud gwaith gwneud yn iawn yn uniongyrchol gyda hi. Felly, yn hytrach, fe gytunodd y panel a'r person ifanc y byddai'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn trefnu gwneud y gwaith gwneud iawn mewn sefydliad arall sy'n cefnogi oedolion anabl.

# 6. Recriwtio, hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr

Mae'r bennod hon yn trafod recriwtio, hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr, yn bennaf i fod yn aelodau o baneli troseddau ieuenctid.

**Sut arolygom hyn**

Cyfarfuom â grŵp ffocws o wirfoddolwyr a'r aelod(au) o staff sy'n gyfrifol am drefnu'r paneli ym mhob un o'r ardaloedd yr ymwelom â hwy. Fe archwiliom dystiolaeth ddogfennol arall hefyd.

6.1 Mae i ba raddau mae aelodau'r panel yn gynrychioliadol o'r amrywiaeth yn y gymuned ehangach, a'r ddealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu pobl ifanc a'r cymunedau penodol lle maent yn byw yn amrywio'n sylweddol. Yn gyffredinol, nid yw Timau Troseddau Ieuenctid yn gwneud digon i sicrhau bod hyn yn wir. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r panel yn ganol oed ac yn bennaf o'r dosbarth canol. Roedd rhai yn seilio'u rhagdybiaethau am ymddygiad ar brofiadau nad oedd yn gyfoes. Roedd rheolwyr achos yn aml yn gwneud sylwadau ar ddiffyg amrywiaeth yn y paneli; er bod rhai Timau Troseddau Ieuenctid ymdrechu'n galed i gynnwys cymysgedd o brofiadau ar baneli unigol.

**Dyfyniad: gwerth aelodau'r panel yn dod o'r gymuned leol**

Dywedodd rheolwr achos: *"mae un aelod o'r panel yn dod o dref fechan yn yr ardal. Gall ddweud sut deimlad yw byw yno, gall dynnu sylw pan fydd y siop sglodion yn cynnig swydd, mae'n gwybod ble mae'r bysiau . . . mae hynny wir yn helpu ei gydweithio â'r bobl ifanc."*

6.2 Nid oedd gan ddigon o aelodau ddealltwriaeth o'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf uniongyrchol gan droseddu - ond pan roedd dealltwriaeth ganddynt, roedd effaith gadarnhaol hynny yn sylweddol. Rôl bwysig aelodau panel unigol yw gwneud defnydd o adnoddau cymunedol lleol wrth bennu cytundebau. Fe welsom lawer o dystiolaeth o hyn yn digwydd, er pan roeddent yn cyfeirio at adnoddau a oedd o fewn cwmpas arferol pobl ifanc, roeddent yn cael eu croesawu. Rydym yn cydnabod y gall fod risgiau yn gysylltiedig â bod ar banel yn yr ardal lle mae'r person yn byw, ond dylai Timau Troseddau Ieuenctid adnabod a rheoli hyn, yn hytrach na'u hosgoi yn gyfan gwbl.

**Esiampl o arfer nodedig: cael mwy amrywiaeth ymhlith aelodau'r panel**

Bu Tîm Troseddau Ieuenctid Lerpwl adnabod fod nifer cynyddol o orchmynion atgyfeirio yn dod o gymuned ethnig benodol. Fe dargedon nhw ymarferiad recriwtio i ddod o hyd i aelodau o'r panel a oedd yn deall y gymuned honno.

Ar wahân maen nhw, er enghraifft, wedi siarad mewn mosg lleol gyda golwg ar gynyddu cyfranogiad y gymuned ffydd honno mewn gwirfoddoli.

Fe geisiodd dau Dîm Troseddau Ieuenctid yn benodol i sicrhau cydbwysedd rhwng eu haelodau panel a chael cymysgedd o rywiau a chymysgedd o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd, roeddem yn ystyried hwn yn arfer cadarnhaol.

6.3 Er bod eithriadau clir, yn gyffredinol roeddem o'r farn bod aelodau mwyaf newydd paneli yn aml yn cydnabod yr agweddau o edrych i'r dyfodol ac egwyddorion ehangach o orchmynion atgyfeirio yn well, tra bod eraill yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar 'dwyn i gyfrif' ac agweddau gwneud iawn eu rôl. Roedd gan aelodau profiadol paneli sgiliau gwerthfawr; Nid oedd Timau Troseddau Ieuenctid, fodd bynnag, bob tro'n gwneud digon i adnewyddu

aelodau'r panel, gyda chymysgedd eang o brofiad, ac a oedd yn wirioneddol gynrychioliadol o'r gymuned.

6.4 Mae cyfarwyddyd statudol yn glir (paragraffau 5.23 a 5.27) am y safonau isafswm ar gyfer goruchwylio aelodau'r panel, gan gynnwys arfarniad blynyddol un-i-un. Nid oedd hyn yn digwydd bob tro. Byddai'n cael ei chydnabod yn gyffredinol fel annerbyniol pe na fyddai staff sy'n gweithio yn rhinwedd unrhyw swydd gyda phobl ifanc yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniad ffurfiol o ansawdd da yn rheolaidd; nid ydym yn credu y dylai aelodau'r panel cael eu trin yn wahanol. Mae rôl hanfodol gan aelodau'r panel; ymrwymiad tebyg, felly, dylid cael yr un ansawdd o oruchwylio ac arfarnu. Roedd Sutton yn enghraifft gadarnhaol o oruchwyliaeth ac arfarnu ffurfiol blynyddol a oedd yn cael ei groesawu gan aelodau'r panel.

6.5 Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn nodi anawsterau o ran adnoddau fel rheswm dros beidio â rhoi sylw i hyn, ond roeddem o'r farn bod hyn yn arwydd o'r diffyg blaenoriaeth a roddir i orchmynion atgyfeirio. Mae'r cyfarwyddyd statudol yn rhy gaeth yn hyn o beth - mae maint y panel gwirfoddolwyr sydd gan rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn golygu y dylid llacio'r gofyniad i bob un 'gael ei neilltuo i aelod goruchwylio o'r tîm troseddau ieuenctid', er mwyn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd, er enghraifft, o uwch wirfoddolwr profiadol yn ymgymryd â'r rôl hon.

6.6 Roedd aelodau'r panel yn gyffredinol yn fodlon gyda'r hyfforddiant a datblygiad yr oeddent yn eu derbyn; er bod natur hwn yn amrywio'n sylweddol o ddigwyddiadau achlysurol iawn ad hoc i ddigwyddiadau ffurfiol bob tri mis ac roedd disgwyl i aelodau'r panel fynychu er mwyn cadw eu lle. Rhoddodd rhai Timau Troseddau Ieuenctid fynediad at yr ystod o gyfleoedd hyfforddi mewnol yn yr awdurdod lleol i'r gwirfoddolwyr a oedd ar gael i unrhyw aelod o staff. Ble roedd hyn yn cael ei ddarparu, roedd yn cael ei groesawu'n fawr iawn. Mewn rhai achosion, roedd gan wirfoddolwyr fynediad i'r hyfforddiant sydd ar gael i staff i gefnogi'r fframwaith asesu a chynllunio AssetPlus y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

**Esiampl o arfer nodedig: mynediad at Le Dysgu Rhyngweithiol Cyfiawnder Ieuenctid**

Mae gweithwyr achos yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi orfodol fel rhan o weithrediad AssetPlus y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Bwriad y rhaglen ymsefydlu yma yw sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth gyson, sylfaenol o elfennau allweddol arfer a theori. Mae hyn yn cael ei wneud trwy fynediad ar-lein i Fan Dysgu Rhyngweithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac mae am ddim i Dimau Troseddau Ieuenctid. Dewisodd Tîm Troseddau Ieuenctid Stoke i gynnwys aelodau gwirfoddol y panel yn yr hyfforddiant gorfodol. Cafodd hyn ei groesawu gan aelodau'r panel a dylai helpu rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r damcaniaethau am weithio gyda phobl ifanc.

6.7 Mae cyfarwyddyd statudol yn gofyn bod pob aelod o'r panel yn derbyn hyfforddiant llawn Hwylusydd Cyfarfod Cyfiawnder Adferol. Rydym yn cytuno, er mwyn arwain cyfarfod cyfiawnder adferol, bod rhaid i'r hwylusydd fod yn gwbl gymwys yn y sgiliau angenrheidiol - a bod angen màs critigol o hwyluswyr ar gael ar ddefnydd yr holl Dimau Troseddau Ieuenctid. Dylai'r safon hyfforddiant gorfodol isafswm ar gyfer aelodau'r panel, fodd bynnag, adlewyrchu'n well yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn y paneli. Nid yw cadw at y safon gyfredol yn ddefnydd da o adnoddau cyfyngedig. Roedd yn achosi rhwystredigaeth ymysg rheolwyr a oedd yn teimlo na allent gyfiawnhau'r buddsoddiad penodol hwn. Roedd hefyd yn gweithredu fel rhwystr diangen i Dimau Troseddau Ieuenctid wrth gyflawni Nod Ansawdd Gwasanaeth Adferol y Cyngor Cyfiawnder Adferol (ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau adferol diogel, o ansawdd da) y mae llawer yn dyheu i, ac a oedd yn cael ei gefnogi gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Weinyddiaeth

Gyfiawnder. Mae hyn oherwydd bod y disgwyliad ar hyfforddiant ar gyfer aelodau'r panel yn seiliedig ar y gofynion yn y cyfarwyddyd.

**Esiampl o arfer nodedig: tystysgrif ymarferwyr lefel 5**

Roedd Sutton a Thimau Troseddau Ieuenctid eraill yn noddi eu hymarferwyr cyfiawnder adferol i wneud tystysgrif lefel 5 ymarferydd cyfiawnder adferol mewn prifysgolion megis Greenwich. Roedd eraill yn cefnogi achrediad yn uniongyrchol gyda'r Cyngor Cyfiawnder Adferol.

6.8 Mae angen i bob aelod o'r panel gael dealltwriaeth dda o gyfiawnder adferol a sut i weithio mewn ffordd adferol, yn enwedig pan fydd dioddefwr yn bresennol yn y panel neu pan fod eu mewnbwn yn cael ei gyflwyno. Ond nid yw hynny'r un fath â gallu arwain cyflwyno cyfarfodydd cyfiawnder adferol llawn, sydd, fel yr ydym wedi esbonio mewn mannau eraill yn wahanol i gyfarfod panel. Mae'r rhan fwyaf o baneli ymdrechu'n galed i wneud yn siŵr bod y person ifanc yn deall safbwynt y dioddefwr. Maent yn gwneud defnydd o'u hyfforddiant cyfiawnder adferol yn y ffordd y maent yn mynd ati i wneud y gwaith hwn. Oni bai bod aelodau'r panel yn cael y cyfle i ymgymryd â chyfarfodydd cyfiawnder adferol maent yn colli'r sgiliau y maent wedi'u hennill yn gyflym, ac ni fyddant mewn sefyllfa i gynnal cyfarfod hyd yn oed os yw'r cyfle'n codi. Roedd y diffyg cyfle i ddefnyddio sgiliau y maent wedi eu dysgu hefyd yn achosi llawer o rwystredigaeth.

6.9 Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o'r rhai sy'n ymgymryd â chyswllt un-i-un gyda dioddefwyr yn derbyn hyfforddiant llawn yn y gwahanol brosesau adferol. Maen nhw hefyd yn debygol o fod y sawl sy'n paratoi a chefnogi dioddefwyr, ac ni ellir disgwyl iddynt helpu dioddefwyr wneud penderfyniadau am eu cyfranogiad os nad ganddynt ddealltwriaeth drylwyr eu hunain. Roeddem yn falch o ganfod bod y rhai sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn wedi eu hyfforddi'n dda

# 7. Rhan dioddefwyr yng ngwaith gorchmynion atgyfeirio

Er mwyn i waith gorchmynion atgyfeirio fod yn adferol i'r dioddefwr[6] rhaid iddynt ddod i gymryd rhan yn y lle cyntaf mewn modd sy'n briodol iddynt hwy. Mae'r bennod hon yn archwilio pa mor dda mae dioddefwyr yn cymryd rhan yng ngweithrediad y gorchmynion atgyfeirio, sut y cysylltir â hwy a sut esbonnir eu hopsiynau iddynt, ac yna pam mae rhai dewis cymryd rhan ai peidio.

**Sut arolygom hyn**

Yn ystod y gwaith maes fe ofynnom i siarad â phob dioddefwr o achos a arolygwyd a oedd yn dal mewn cysylltiad â'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Fe lwyddom siarad â chyfanswm o ddeg dioddefwr. Fe ofynnom hefyd i bob Tîm Troseddau Ieuenctid anfon holiadur ar ein rhan i ddioddefwyr newydd, cyn iddynt wneud penderfyniad terfynol a ran ydynt am gymryd rhan a chawsom 57 ymateb.

### Ymwneud dioddefwyr

7.1 Roedd pob Tîm Troseddau Ieuenctid yn cydnabod nad oedd digon o ddioddefwyr yn cymryd rhan yng ngwaith ar orchmynion atgyfeirio. Nid oedd gan bob Tîm Troseddau Ieuenctid ddata cynhwysfawr ar effeithiolrwydd eu cyswllt â defnyddwyr a'r trefniadau ymrwymo. Nid oeddent chwaith wedi ymgymryd â gwaith diweddar i geisio deall beth fyddai'n annog mwy o ddioddefwyr i gymryd rhan.

7.2 Roedd cyflawni cyswllt uniongyrchol cynnar â'r dioddefwr (sef siarad â hwy) yn hanfodol i'r tebygolrwydd o ymwneud parhaus. Nodwyd lefelau uwch o gyfranogiad yn y Timau Troseddau Ieuenctid hynny a oedd yn dyfalbarhau wrth geisio cyflawni hyn. Unwaith bod cyswllt llais wedi'i wneud cytunodd y mwyafrif i ddefnyddio gwasanaethau'r Tîm Troseddau Ieuenctid mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Roedd y niferoedd uchaf o bell ffordd yn Wiltshire ac yng Nghonwy a Sir Ddinbych ble, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ychydig dros 70% o'r dioddefwyr wedi darparu datganiad i'r panel, dau yn bersonol. Roedd Wiltshire a Chonwy a Sir Ddinbych yn barod i reoli'r risgiau, sy'n gysylltiedig â cheisio cysylltiadau lluosog, o ymddangos yn rhy ddyfal nes eu bod yn fodlon bod y dioddefwr wedi gwneud penderfyniad gwybodus llawn. Yn y ddau Dîm Troseddau Ieuenctid, fe welsom mwy o gyfranogiad gan ddioddefwr ynghyd â boddhad uwch ymhlith dioddefwyr.

---

[6] Ceir trafodaeth ymhlith ymarferwyr ynghylch a yw'r term 'dioddefwr' yn briodol wrth fynd i'r afael â dioddefwyr unigol neu a fyddai term fel 'person sydd wedi cael niwed' yn fwy priodol. Y cyngor a dderbyniom yw bod y term 'niweidio' hefyd yn dieithrio rhai pobl, ac mae yna amgylchiadau lle nad yw'n glir pwy sy'n ddioddefwr a phwy sy'n droseddwr. Er ei bod yn bwysig cydnabod y ddadl bwysig hon, mae mwyafrif yr ymarferwyr yn defnyddio'r term 'dioddefwr'. Mae angen hyblygrwydd i ddefnyddio'r term mwyaf priodol yn dibynnu ar y cyd-destun penodol. Felly, gan fod 'dioddefwr' yn derm y mae ei ystyr sy'n cael ei deall yn gyffredin, mae wedi cael ei ddefnyddio drwy gydol yr adroddiad hwn.

**Esiampl o arfer nodedig: Wiltshire - defnydd o wirfoddolwyr i gysylltu â dioddefwyr**

Yn Wiltshire roedd gwaith dioddefwyr yn cael ei reoli gan y swyddog cyswllt dioddefwyr, ond roedd mwyafrif y cyswllt yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr panel troseddwyr ifanc a gafodd eu hyfforddi yn benodol i wneud y gwaith hwn. Darparodd hyn mwy o lawer o adnoddau a hyblygrwydd. . . gan fod gwirfoddolwyr yn gallu trefnu cyswllt yn haws ar gyfer pa bynnag adeg o'r dydd, neu ddiwrnod o'r wythnos, a oedd yn gyfleus i'r dioddefwr. Yna roedd gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i'r dioddefwr drwy gydol y broses, gan fynd gyda nhw i'r panel os oedd y dioddefwr yn dymuno mynychu, a siarad yn uniongyrchol ar eu rhan os nad ydynt am wneud hynny, ond eu bod dal yn awyddus i leisio'u barn. O ganlyniad, roedd Wiltshire yn gallu darparu gwasanaeth cost-effeithiol, hyblyg i ddioddefwyr ac roedd llawer o groeso i hyn. Roedd hefyd yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r hyfforddiant cyfiawnder adferol roedd y gwirfoddolwyr wedi derbyn.

7.3 Nid oedd gan y rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid ddigon o adnoddau yn ymroddedig i waith dioddefwr i ddarparu'r lefel o gefnogaeth a hyblygrwydd y byddent yn hoffi; yn wir, roedd gan un system dogni amhriodol lle roeddent yn dewis peidio â chysylltu â dioddefwyr rhai troseddau ac mewn rhai lleoliadau. Ar adegau eraill, byddai gweithwyr yn mynd yn bell allan o'u ffordd i weithio gyda dioddefwyr. Digwyddodd enghraifft dda yn ein lleoliad peilot, ble roedd y dioddefwyr yn byw ychydig oriau i ffwrdd o'r Tîm Troseddau Ieuenctid - roeddent wir yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad ac yn elwa'n fawr o gymryd rhan.

7.4 Rydym yn disgwyl i'r rheolwr achos wybod pa gyswllt sydd wedi cael ei wneud a sut ymatebodd y dioddefwr, gan fod hyn yn uniongyrchol berthnasol i ystyried a allai cyfiawnder adferol fod yn briodol, ond mewn llawer o achosion, nid oeddent yn gwybod ac nid oeddent yn gallu dod o hyd i hyn o'r cofnodion sydd fel arfer ar gael iddynt.

**Trefniadau cysylltu â dioddefwyr a'u heffeithiolrwydd**

7.5 Roedd gan bob Tîm Troseddau Ieuenctid system effeithiol i gael manylion y dioddefwr. Yn Wakefield roedd y gweithiwr dioddefwr yn cael ei gyflogi gan yr heddlu ac â mynediad at eu systemau i gael gwybodaeth dioddefwr, a oedd yn arbennig o effeithiol. Yna ceisiodd rhai Timau Troseddau Ieuenctid cysylltu dros y ffôn tra bod eraill yn anfon llythyr gyda manylion o awgrym amser i gwrdd neu gysylltu.

7.6 Mae'r rhai sydd wedi ymchwilio'r maes yma yn ystyried bod ansawdd y cyswllt cychwynnol yn hanfodol i'r tebygolrwydd o gymryd rhan, ac felly cyfle i fuddio. Felly, dylai'r ffocws fod ar agor y drws, er mwyn gallu ystyried cyfiawnder adferol yn ddiweddarach ar ba bynnag adeg mae'r dioddefwr yn barod.

7.7 Yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd y llythyrau cychwynnol a dogfennau a anfonwyd at ddioddefwyr yn ei gwneud yn amlwg mai'r prif fwriad oedd er budd y dioddefwr. Yn wir, yn aml roedd cymaint o sylw yn cael ei roi i egluro'r broses a chysylltu â'r digwyddiad gwreiddiol y byddai'n eithaf rhesymol i'r dioddefwr ei darllen a meddwl eu bod yn cael eu gofyn i gymryd rhan er budd y troseddwr. Roedd llythyrau yn aml yn rhy hir a dwys, i'r fath graddau y byddai angen eu darllen sawl tro er mwyn adnabod y budd i'r dioddefwr. Beth bynnag, nid yw cael gwybod yr un fath â dealltwriaeth. Tra ei bod yn bwysig bod y dioddefwr yn deall y cyfle i gael eu clywed mewn panel cychwynnol, nid oes angen iddynt ddeall yr holl brosesau yn ymwneud â gorchmynion atgyfeirio ar unwaith.

7.8 Yn gyffredinol, wrth gysylltu â rhywun i ofyn am gyfraniad gwirfoddol yr amcan cyntaf yw i gipio eu sylw oherwydd y gallai fod yn rhywbeth o werth iddynt. Dylai fod digon o wybodaeth i wneud yn siŵr eu bod yn deall yr hyn y mae'n sôn am, ond nid cymaint eu

bod yn colli diddordeb. Gall y manylion ddod yn ddiweddarach ar ôl cipio ei diddordeb. Roedd aliniad rhwng ble welsom lythyrau cychwynnol da, personol gyda gwybodaeth atodol glir a lle welsom gwell gyfranogiad gan ddioddefwyr.

**Esiampl o arfer nodedig: Wakefield – taflen syml yn pwysleisio'r buddion posib**

Roedd Tîm Troseddau Ieuenctid Wakefield, yn hytrach na darparu eglurhad manwl o broses gorchmynion atgyfeirio, yn anfon taflen A5 sgleiniog deniadol i ddioddefwyr gyda'r pennawd **'Cyfiawnder Adferol'** mewn priflythrennau. Roedd y dudalen flaen yn syml gan gynnwys un is-bennawd **'Llais i ddioddefwyr'** a dau bwynt yn tynnu sylw at bethau allai fod o ddiddordeb i ddioddefwyr, gan orffen gyda'r geiriau 'Gallai cyfiawnder adferol helpu': yna ail is-bennawd **'Beth yw cyfiawnder adferol',** gyda phedwar pwynt yn nodi pam gallai dioddefwyr eisiau cymryd rhan. Roedd gwybodaeth am **'Beth sy'n digwydd nesaf?'** ar y cefn.

Agorodd hyn y drws i drafodaeth, ond gadawodd y manylion tan ar ôl i'r dioddefwr ystyried a oedd yn rhywbeth allai fod o fudd iddynt.

### Barn dioddefwyr

7.9 Fe siaradodd y dioddefwyr i ni gwrdd â hwy, a oedd wedi cymryd rhan gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid, yn gadarnhaol am y manteision i'w hunain ac argymhellon nhw fod eraill yn gwneud yr un peth. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cyswllt a gawsant a sut, ar ôl creu cyswllt personol, roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn egluro pethau'n glir ac yn eu cefnogi'n dda. Atebodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn debyg.

7.10 Dywedodd llai na hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn debygol o gymryd rhan, a oedd yn golygu na fyddent yn cael cyfle i gael budd. Rhestrir y rhesymau pam y mae rhai yn dewis i gymryd rhan, ac eraill ddim, yn y mewnosodiad canlynol. Anogir Timau Troseddau Ieuenctid i fyfyrio ar sut y gallant liniaru'r pryderon a fynegwyd gan rai dioddefwyr.

**Pam mae dioddefwyr yn dewis cymryd rhan neu beidio?**

**Dyfyniadau gan ddioddefwyr a ddewisodd gymryd rhan:**

*"Roeddwn i eisiau i'r person ifanc ddeall pam wnes i gwyno. . ."*

*"Er mwyn gofyn un o ddau o gwestiynau a rhoi wyneb i'r enw."*

*"Hoffwn i'r troseddwr ymddiheuro".*

*"I weld gwelliannau yn ei ymddygiad".*

*"Rwyf yn rheolwr lleihau troseddau â chyfrifoldebau sy'n cynnwys ystod o fusnesau lleol. . . mae er budd fy aelodau i mi gymryd rhan."*

*". . ". . . does neb yn gallu dweud wrthym am dlodi ac amddifadedd, nid oeddem yn gwybod yn wahanol, ond nid oedd yn rhieni yn dwyn, na ninnau chwaith. Roedd angen iddo ddeall hynny."*

**Rhesymau pam fod dioddefwyr wedi penderfynu peidio â chymryd rhan,** a dynnwyd o sylwadau a wnaed yn yr arolygiad ac o fewnbwn rhanddeiliaid sydd wedi gwneud gwaith yn y maes hwn:

- roedd gwybodaeth gychwynnol yn gwneud iddi ymddangos fel bod cyfranogiad er budd y Tîm Troseddau Ieuenctid neu'r person ifanc yn hytrach na'r dioddefwr
- canfyddiad cyffredin bod Timau Troseddau Ieuenctid yn cynrychioli buddiannau'r person ifanc
- roedd y dioddefwr yn cael ei wthio yn rhy gyflym i wneud penderfyniad i ffitio i mewn i'r broses, yn hytrach na chael ei annog i adael y drws ar agor er mwyn penderfynu yn ddiweddarach yn eu hamser eu hunain, wrth i'r achos ddatblygu neu os ydynt yn newid eu meddwl
- roedd y dioddefwr yn ofni ôl-effeithiau os roeddent yn siarad am yr hyn oedd wedi digwydd iddynt
- gall dioddefwyr sy'n oedolion deimlo cywilydd o fod yn ddioddefwr i berson ifanc
- dioddefwyr yn derbyn gohebiaeth debyg o nifer o wahanol asiantaethau, gan achosi dryswch, ac nid yw'n amlwg ar unwaith o bwy mae wedi dod
- gall ddioddefwyr fod yn brysur iawn, neu ddim ar gael ar adegau sy'n gyfleus i'r gweithiwr cyswllt, a ddim yn sylweddol bod opsiynau ar gael i fynd i'r afael â hyn
- efallai na fydd dioddefwyr yn sylweddoli lefel y budd y gallent ei derbyn
- llawer o amser wedi mynd heibio ers y drosedd wreiddiol a'r dioddefwr wedi symud ymlaen
- anfodlonrwydd â'r system cyfiawnder troseddol neu'r ddedfryd a basiwyd.

# 8. Adfer, gwneud iawn ac ail-ymgyfuno

Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau am dair egwyddor allweddol cyfiawnder adferol sy'n berthnasol i orchmynion atgyfeirio - adfer, gwneud yn iawn ac ail-ymgyfuno; a'r sylw a roddir i'r rhain.

**Sut arolygom hyn**

Fe gyfarfuom ag ymarferwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn. Fe ymwelsom â rhai prosiectau gwneud yn iawn a chwrdd â buddiolwyr gwneud yn iawn a wnaethpwyd gan bobl ifanc. Fe gyfarfuom â rhanddeiliaid cenedlaethol a oedd ynghlwm mewn cyfiawnder adferol ac archwilio tystiolaeth ddogfennol.

### Cyfiawnder Adferol

8.1 Roeddem yn falch o ddarganfod bod pob Tîm Troseddau Ieuenctid yn mynegi ymrwymiad i gyfiawnder adferol ac yn datblygu neu wedi cyflawni ffocws ar hyn trwy gydol ei gwaith. Roedd y cyfle i'w gyflwyno, fodd bynnag, yn gyfyngedig iawn oherwydd y gyfran fechan o ddioddefwyr a oedd wedi ymrwymo gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Roedd mwyafrif aelodau'r panel heb fod yn rhan o gynhadledd cyfiawnder adferol ac ychydig yn unig oedd wedi bod ar banel ble roedd dioddefwr yn bresennol. Tra bod y ffaith bod gorchmynion atgyfeirio yn adferol yn un o'n meini prawf; yn aml, y cwbl roedd modd i ni ddweud oedd bod y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi gwneud ymdrech dda i fabwysiadu ymagwedd adferol, ond bod eu cyfle i gyflawni canlyniad adferol wedi cael ei gau allan gan ddiffyg ymglymiad dioddefwyr.

8.2 Fe welsom ddryswch am beth sy'n cyfri fel cyfiawnder adferol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Cyngor Cyfiawnder Adferol yn ei diffinio fel dod â'r sawl a niweidiwyd a'r sawl sy'n gyfrifol am y niwed mewn cyfathrebiad â'i gilydd, gan alluogi i bawb a effeithiwyd gan ddigwyddiad i chwarae rhan yn natrys y niwed a dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen. Mae hyn yn gofyn am gyfathrebu uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng y dioddefwr a'r person a gyflawnodd y drosedd. Dylai fodloni dymuniadau'r ddau, nid y naill neu'r llall yn unig. Yr ymagwedd fwyaf priodol ar gyfer dioddefwr unigol, unwaith eu bod yn gwybod yr opsiynau a'r buddion posib, yw'r un maen nhw ei eisiau. Yn ychwanegol at gyfarfodydd wyneb i wyneb, gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwneud yn iawn uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n bodloni gofyniad penodol y dioddefwr, atebion i gwestiynau (megis tawelu'u meddwl eu bod wedi cael eu targedu) neu dderbyn ymddiheuriad. Efallai mai'r cwbl maen nhw ei eisiau yw i'r person ifanc ddeall yr effaith gafodd y drosedd, heb gwrdd â nhw eto. Gallai pob ymagwedd hefyd arwain at agor y drws i gyfarfod adferol maes o law. Hoffem weld mwy o gydnabyddiaeth bod pob un mor ddilys a gwerthfawr â'i gilydd, ac felly'n adferol - os bod hynny'n bodloni dymuniadau'r dioddefwr unigol, maen nhw'n cymryd rhan yn y cyflwyniad neu'r detholiad, ac yn derbyn gwybodaeth am y canlyniadau.

8.3 Roedd y mwyafrif o'r rhai i ni gwrdd â hwy yn cydnabod mai safon aur cyfiawnder adferol yw pan mae'r dioddefwr a'r person ifanc yn cwrdd mewn cyfarfod adferol. Nid oedd lawer o dystiolaeth bod y rhain wedi cael eu defnyddio. Nod sylfaenol cyfarfod adferol yw bodloni anghenion y dioddefwr a ni ddylai gynnwys materion rheolaidd eraill. Dylai fod yn wirfoddol i'r ddwy ochr. Nid y panel troseddau ieuenctid, felly, yw'r lle gorau fel arfer i hwyluso cyfarfod adferol, oherwydd bod rhaid i'r panel ddelio gyda gwaith arall, a bod presenoldeb

y person ifanc yn orfodol. Roedd dryswch rhwng yr egwyddorion pwysig hyn yn y cyfarwyddyd statudol.

8.4 Gallai ormod o bwyslais ar bresenoldeb y dioddefwr mewn panel cynnar leihau'r siawns o gyfarfod adferol yn ddiweddarach. Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, mae'r agwedd hon o'r cyfarwyddyd statudol wedi cael ei wthio yn ôl gan y ddealltwriaeth ddatblygol o gyfiawnder adferol. Yn y panel cychwynnol, y prif nod dylai fod i glywed llais y dioddefwr fel y maen nhw'n dymuno, os ydynt yn bresennol ai peidio. Rydym yn cydnabod, gyda digon o ymdrech, gall ddioddefwyr weithiau fod yn barod i gymryd rhan mewn pryd ar gyfer panel cychwynnol, hyd yn oed mewn achosion anodd.

8.5 Fe welsom gred gyffredin bod ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad yn awtomatig yn beth da i'w wneud ac yn adferol. Nid yw hynny'n gywir. Gall fod gwerth mawr i weithio gyda pherson ifanc i ysgrifennu i lawr pam gyflawnon nhw'r drosedd, sut maen nhw'n teimlo amdano a sut hoffent wneud pethau'n iawn. Roedd nifer o reolwyr achos yn ymgymryd â hyn fel rhan o'u gwaith ymyrraeth. Os oedd y dioddefwr wedi gofyn am hyn a bod y person ifanc yn cyrraedd y pwynt ble maen nhw'n gallu cwblhau hyn yn onest a gyda thrugaredd, yna mae'n arbennig o werthfawr. Mae cynnwys hyn mewn cytundeb pan nad yw'r dioddefwr wedi gofyn amdano yn gallu rhoi camargraff i'r person ifanc a gallai achosi niwed os ydynt yn ysgrifennu llythyr maen nhw'n meddwl sydd wedi cael ei wrthod oherwydd ei bod heb fynd i'r dioddefwr. Roedd yr amlder a welsom hyn yn cael ei gynnwys mewn cytundebau yn achos pryder am y lefel o ddealltwriaeth am ddiben y llythyron hyn. Fel nododd un cyfrannwr at yr arolygiad: *"mae cynnwys llythyron o ymddiheuriad yn safonol mewn cytundebau panel yn ei wneud yn ddiystyr. . . [oni bai bod y dioddefwr ar gael ac wedi gofyn amdano]".*

**Esiampl o arfer nodedig: rheoli disgwyliadau dioddefwyr yn y panel cychwynnol**

Dyn yn ei ugeiniau cynnar oedd y dioddefwr a oedd wedi dioddef ymosodiad cyffredin gan ddau ddiffynnydd. Fe blediodd y diffynyddion yn ddieuog i rannau o'r cyhuddiad ond yn euog i eraill.

Fe fynegodd y dioddefwr awydd i gwrdd â'r ddau berson ifanc yn eu paneli ond roedd un yn amharod i wneud hynny ac roedd yn cael trafferth i ddeall pam roedd y dioddefwr eisiau cwrdd ag ef. Roedd eisiau ymddiheuriad ond roedd yn ymddangos yn annhebygol y byddai'n cael hyn gan naill berson ifanc na'r llall. Bu'r gweithiwr dioddefwr a'r rheolwr achos gwrdd â'r dioddefwr i wneud yn siŵr ei fod yn ymwybodol bod siawns na fyddai'n derbyn yr ymddiheuriad. Roedd hyn yn fodd cadarnhaol ac effeithiol o reoli disgwyliadau'r dioddefwr.

Yn dilyn cyfnod o gynllunio dwys, roedd y dioddefwr yn mynychu'r panel. Fe fynegodd sut roedd yn teimlo o flaen y panel a'r person ifanc ac arsylwi'r ymateb i hynny. Gwrthododd y person ifanc ymddiheuro, ond roedd y profiad yn dal yn werthfawr i'r dioddefwr oherwydd cafodd gyfle i leisio ei barn. Fe fynychodd y panel ar gyfer y person ifanc arall ar yr un diwrnod. Yn yr achos hwn, cafodd effaith gadarnhaol ar y person ifanc a wirfoddolodd ymddiheuriad emosiynol unwaith iddo glywed y dioddefwr (wedi iddo ddweud yn flaenorol na fyddai byth yn ymddiheuro).

Dywedodd y dioddefwr ei fod yn fodlon iawn a bod y profiad yn ffrwythlon ac yn werth ei wneud. Roedd y canlyniadau cyfyngedig wedi bodloni eu disgwyliadau, oherwydd eu bod wedi cael eu rheoli'n dda ymlaen llaw.

Y pethau hanfodol a gyfrannodd at ei fodlonrwydd oedd bod y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cefnogi ei ymglymiad er gwaethaf y risgiau, gan sicrhau eu bod yn deall ei flaenoriaethau wrth gymryd rhan ond hefyd wedi ei reoli a'i baratoi'n dda. Roedd y gwaith agos rhwng y gweithiwr dioddefwyr a'r rheolwr achos a'r ymglymiad rhwng y rheolwr achos a'r dioddefwr hefyd wedi helpu rheoli'r risgiau a disgwyliadau.

### Gwneud iawn ac ail-ymgyfuno yn y gymuned

8.6 Roedd dryswch o ran a yw gwneud yn iawn yn adferol. Mae arbenigwyr yn y maes hwn o'r farn y gall fod - ble mae cais gan y dioddefwr i dderbyn gwneud iawn uniongyrchol neu anuniongyrchol penodol a ble maen nhw'n ymwybodol o'i gwblhad. Ble mae cyfarwyddyd yn unig ydyw i gynnal prosiect, yna nid yw'n adferol ar gyfer y dioddefwr; er os yw'n cael ei defnyddio'n dda, gall gefnogi ail-ymgyfuno yn y gymuned, megis arwain at gyflogaeth neu wirfoddoli.

8.7 Prif ddiben gwneud iawn yw gwneud iawn am y niwed a achoswyd. Dylai felly, ble fo'n bosib, rhoi yn ôl i'r sawl sydd wedi cael eu niweidio fwyaf, gan gynnwys cymunedau lleol. Dylai hefyd gyfrannu at ail-ymgyfuno'r person ifanc yn y gymuned, er enghraifft, trwy ddatblygu synnwyr o falchder, cyfrannu at ddatblygu sgiliau, neu trwy helpu datblygu diddordebau neu gyfleoedd i newid ffordd o fyw. Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i'r amcanion hyn wrth ddewis prosiectau gwneud yn iawn. Roeddem yn ystyried bod gwneud yn iawn wedi buddio'r gymuned a effeithiwyd fwyaf uniongyrchol gan y troseddu mewn llai nag un traean o'r achosion a bod dim digon o bwyslais yn cael ei roi i'r cyfleoedd ehangach y gallai gwneud yn iawn eu darparu. Weithiau roedd gormod o flaenoriaeth yn cael ei roi i gyfleuster gweinyddol wrth ei drefnu.

8.8 Yr egwyddor derfynol sy'n gysylltiedig â gwaith gorchmynion atgyfeirio yw ail-ymgyfuno yn y gymuned. Roedd gweithwyr ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yr ymwelom â hwy yn ceisio cefnogi hyn, weithiau trwy waith gwneud yn iawn ystyrlon, ond roedd hyn yn anghyson yn hytrach nag yn sgil disgwyliad clir. Roedd gormod o ddibynadwyedd at waith tir neu brosiectau codi sbwriel a oedd yn syml i'w cynnal a'u gweinyddu, ond ddim yn greadigol ac yn golygu bod cyfleoedd ehangach yn cael eu colli. Mae hyn yn atseinio gyda chanfyddiadau ein harolygiad ar ymatal a phobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016. Siaradodd y sawl sy'n ymatal yn uchel eu clod am eu lleoliadau, tra bod y sawl sy'n parhau wedi cael profiadau gwael. Yn aml, nid oedd ail-ymgyfuno yn fwy cyffredinol, er enghraifft, trwy addysg neu weithgareddau cadarnhaol, yn cael ei adlewyrchu yn y cytundeb a gytunwyd.

8.9 Fe welsom nifer o esiamplau positif o bobl ifanc yn gweithio ochr yn ochr ac yn deall ymrwymiad gwirfoddolwyr eraill, er enghraifft mewn banciau bwyd. Darparwyd esiamplau o bobl ifanc yn ymgymryd â gwneud iawn mewn amgylchiadau ble roedd cyfleoedd gwirfoddoli eraill, yna parhau gyda'r gwirfoddoli wedi i'r gwaith gwneud iawn ddod i ben.

8.10 Cafwyd esiampl dda o ddull cadarnhaol o ddefnyddio gwneud iawn yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Yma, fe ymunodd y swyddog gwneud iawn â rhwydweithiau cymdeithasol o fewn y gymuned a monitro'r cyfryngau lleol am ddigwyddiadau y gallai gyfrannu at. Wedi dod o hyd i gyfleoedd a allai helpu datblygu sgiliau pobl ifanc, fe aeth at ffynonellau am gyllid ar gyfer cyfarpar a deunyddiau - gyda nifer ohonynt yn dod ar gael yn ddiweddarach am brosiectau yn y dyfodol.

**Esiampl o arfer nodedig: gwneud iawn i'r gymuned a niweidiwyd**

Fe dderbyniodd Lee orchymyn atgyfeirio am drosedd a gyflawnwyd yn yr ysgol - roedd wedi dod o hyd i gyllell plicio mewn drôr a'i chwifio'n ymosodol at berson ifanc arall mewn pwl o ddicter.

Fe weithredodd pennaeth yr ysgol ar ran yr ysgol fel y dioddefwr trwy fynychu'r panel. Fe esboniodd, yn ychwanegol at y dioddefwr a enwyd, roedd cymuned yr ysgol hefyd wedi dioddef oherwydd iddo ddigwydd yn ystod y diwrnod ysgol a bod nifer o bobl yn ymwybodol ohono. Fe

wnaeth glywed beth roedd yr ysgol yn meddwl am y drosedd wahaniaeth mawr i'r person ifanc a ddechreuodd gymryd cyfrifoldeb dros ei ymddygiad ac ymrwymo gyda gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid.

Bu'r pennaeth adnabod darn penodol o wneud yn iawn - ailaddurno ystafell gyffredin yr ysgol, a gafodd ei wneud yn ystod gwyliau'r ysgol. Fe gymerodd ddwywaith cyn hired â nifer yr oriau gwneud yn iawn a oedd wedi cael eu cytuno. Pan ofynnwyd i'r person ifanc am hyn, dywedodd: *"Nid oedd am yr oriau, roedd am orffen y gwaith yn iawn, achos roeddwn yn sylweddoli beth roedd yn golygu iddyn nhw."*

8.11 Roeddem yn pryderu bod bron i hanner y dioddefwyr y siaradom â hwy wedi dweud bod neb wedi gofyn eu barn ar ba waith gwneud yn iawn dylid ei wneud, a chafodd llai na hanner gynnig y cyfle i ofyn am wneud iawn uniongyrchol, er bod hyn yn ganolog i'r cyfarwyddyd. Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid heb yr adnoddau i allu ymateb i geisiadau am wneud yn iawn uniongyrchol ac roedd hyn yn dylanwadu ar a oedd dioddefwyr yn cael cynnig hyn ai peidio. Weithiau roedd gennym synnwyr cyffredin bod creu gwneud yn iawn uniongyrchol yn creu gormod o broblemau i'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Er hyn, fe welsom rhai esiamplau positif iawn o wneud iawn uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio.

**Esiampl o arfer nodedig: gwneud iawn uniongyrchol - effaith ar y dioddefwr**

Roedd rhywun wedi dwyn beic y dioddefwyr ar wahanol adegau. Cafodd y Tîm Troseddau Ieuenctid dau feic heb eu hawlio o'r heddlu. Gan weithio gyda phrosiect adfer, bu'r person ifanc drwsio'r beiciau ac roeddent 'fel newydd'. Cynhaliwyd gwiriad diogelwch gan siop leol cyn rhoi'r beiciau i'r dioddefwr. Roedd y dioddefwr yn hapus iawn oherwydd ni fyddai wedi gallu fforddio prynu rhai newydd ei hun. Roedd y person ifanc yn adnabod, trwy'r gwaith i baratoi'r beiciau, yr effaith roedd y lladradau wedi eu cael ar y dioddefwr.

8.12 Roedd nifer o weithwyr gwneud iawn yn adnabod y cyfle i ddefnyddio eu gwaith eu hunain i gefnogi rheolwyr achos. Mewn un esiampl, fe ofynnodd gweithiwr i berson ifanc geisio dychmygu'r newidiadau roedd yn ceisio eu cyflawni y diwrnod hwnnw wrth weithio ar wella darn o dir. Ar y diwedd, roedd yn gallu gweld pa mor bell roedd wedi mynd tuag at gyflawni'r newid yna. Fe helpodd y gweithiwr iddo gysylltu hynny â'r gwaith arall roedd yn gwneud gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid a helpu ei ysgogi.

**Esiampl o arfer nodedig: Wakefield District Housing (WDH)**

Roedd gan Dîm Troseddau Ieuenctid Wakefield berthynas gadarnhaol gyda'r prif ddarparwr tai cymdeithasol lleol. Pan roedd WDH angen gwneud gwaith, fe gysyllton nhw â'r Tîm Troseddau Ieuenctid a fyddai'n cefnogi pe gallent. Fe weithiodd staff WDH gyda'r bobl ifanc i helpu datblygu eu sgiliau tra'n gweithio a gweithio fel modelau rhag-gymdeithasol. Fe fuddiodd y cymunedau lleol a effeithiwyd yn uniongyrchol gan ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r gwaith a wnaethpwyd. Helpwyd pobl ifanc i ddatblygu balchder yn y cymunedau ble roeddent yn byw. Fe ddefnyddiodd un y gwaith fel geirda a helpodd e i gael prentisiaeth.

8.13 Fe archwiliom i ba raddau daeth y cymunedau lleol yn ymwybodol o'r cyfraniad a wnaethpwyd gan bobl ifanc yn ymgymryd â gwaith gwneud yn iawn, gan gynnwys gwella'r canfyddiad cyhoeddus o bobl ifanc er mwyn iddynt fod yn fwy parod i gefnogi ail-ymgyfuno pobl ifanc sydd wedi troseddu. Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid heb ystyried hyn. Yr eithriad amlwg oedd Conwy a Sir Ddinbych. Roedd y gweithiwr gwneud yn iawn yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r wasg leol a byddai'n tynnu lluniau ac yn anfon erthyglau yn hyrwyddo'r gwaith a wnaethpwyd gan y bobl ifanc. Nid oedd y rhain yn cyfeirio at y

ffaith bod pobl ifanc wedi troseddu, gan nodi'n syml bod y gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

8.14 Fe welsom rhai prosiectau gwneud yn iawn syfrdanol, ble roedd cyfraniad y bobl ifanc wedi darparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y cymunedau dan sylw, gyda rhai ohonynt â phroffiliau cyhoeddus sylweddol. Roedd yn siomedig gweld bod y Tîm Troseddau Ieuenctid heb gymryd y cyfle ar bob adeg i gysylltu ei hun yn gyhoeddus gyda hynny a thrwy hynny, dathlu gyda'r gymuned ehangach y cyfraniad cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan bobl ifanc sydd wedi troseddu.

**Esiampl o arfer nodedig: busnesau, trigolion a Thîm Troseddau Ieuenctid Stoke yn dod ynghyd ar brosiect gwneud iawn**

Roedd y tir ger bwyty bwyd cyflym wedi tyfu'n wyllt. Roedd cynnal a chadw'r ardal hon yn amod cynllunio ar gyfer y bwyty. Fe ofynnodd cymdeithas y trigolion i'r perchennog gytuno i roi tyweirch a ffens ar y tir, os gallai'r cyngor ei glirio. Roedd y gymdeithas yn ymwybodol o'r buddion y gellir eu cyflawni oherwydd gwaith roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi'i wneud yn flaenorol a'r proffil roedd hyn wedi'i gael. Fe weithiodd pobl ifanc yn galed i glirio'r tir dros nifer o sesiynau. Roedd y bwyty yn gallu gweld hyn ac fe roddon nhw ddiod a rhywbeth i'w fwyta iddyn nhw yn ystod eu hegwyl. Roedd hyn yn boblogaidd ymysg y bobl ifanc oherwydd nid oeddent wedi arfer gweld pobl yn gwneud rhywbeth o'u gwirfodd iddynt. Fe ddaeth y gymuned yn ymwybodol o gyfraniad y bobl ifanc trwy hysbysfwrdd y gymuned, esboniad mewn cyfarfod cyhoeddus, a thrwy luniau a manylion yn cael eu postio ar wefan y gymdeithas trigolion (dros 66,000 o ymweliadau ar adeg yr arolygiad). Roedd hwn yn esiampl bositif o fusnes, y gymuned a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn dod ynghyd trwy wneud yn iawn i fuddio'r gymuned a chyflwyno darlun cadarnhaol o'r cyfraniad a wnaethpwyd gan bobl ifanc.

8.15 Roedd dau Dîm Troseddau Ieuenctid wedi creu cyswllt gyda sefydliadau dyfarnu er mwyn gallu rhoi achrediad ffurfiol i bobl ifanc am yr hyn roeddent wedi'i gyflawni tra'n ymgymryd â'r gwaith gwneud iawn. Roedd y dull hwn yn gofyn bod prosiectau yn fwy creadigol ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau. Roedd hyn yn werthfawr yn helpu pobl ifanc gydag addysg neu gymwysterau ffurfiol cyfyngedig i ddatblygu curriculum vitae a chymhelliant i ail-ymrwymo mewn gwaith neu hyfforddiant.

**Esiampl o arfer nodedig: Prosiect Fideo Conwy a Sir Ddinbych - ymwybyddiaeth gymunedol o'r cyfraniad cadarnhaol a wnaethpwyd gan bobl ifanc a oedd wedi troseddu.**

Roedd hwn yn bartneriaeth rhwng gweithredwr trên lleol, partneriaeth reilffordd wirfoddol a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, gydag ariannu'n cael ei darparu gan elusen yr Uwch Siryf. Fe ddigwyddodd diolch i'r gwaith cadarnhaol roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid eisoes wedi gwneud ar brosiectau gwneud yn iawn ar gyfer y bartneriaeth.

Fe grëwyd ffilm allai gael ei defnyddio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i helpu gwella diogelwch ar y rheilffyrdd a lleihau effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fe weithiodd gwneuthurwr ffilm lleol gyda phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r Tîm Troseddau Ieuenctid i gynllunio, sgriptio a chynhyrchu'r ffilm. Y bobl ifanc oedd hefyd yn gwneud y prif rolau actio. Roeddent wedi clirio a phlannu gwelyau blodau a gwneud gwelliannau eraill fel rhan o'r gwaith gwneud yn iawn - fe ddangoswyd hyn yn y ffilm. Dywedodd un bod hyn yn rhoi synnwyr o falchder iddo ac yn helpu datblygu ei hunanhyder. Roedd hefyd yn darparu amlygrwydd i'r sgiliau roedd ganddo ddiddordeb yn eu cymryd ymhellach. Roedd teitlau'r ffilm yn eu gwneud yn glir ei datblygwyd ar y cyd â'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, ond ni adnabuwyd unrhyw un o'r actorion fel troseddwyr.

Dywedodd y bartneriaeth leol: *"oriau o'n hamser. . …mae'n cael eu dinistrio gan fandaliaeth ddifeddwl…mae'r bobl ifanc wedi gwneud gwaith ardderchog…yn trwsio difrod ac yn adfer ewyllys tolciog y mabwysiadwyr hynny yr oedd y troseddu wedi effeithio arnynt trwy ddinistrio eu gwaith caled. Roedd eu cyfraniad cystal fel y penderfynom gofnodi a phortreadu ar ffilm yr esiampl ardderchog hon o weithio mewn partneriaeth a'i neges bwerus. [Bydd yn helpu] lledaenu'r neges a pharhau gyda'r gwaith gwerthfawr yma."*

Dywedodd un o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y ffilmio: *"Mae gwneud iawn wedi fy helpu i ddysgu nifer o wahanol bethau. Rwy'n teimlo fy mod wedi buddio 110% o bopeth rydw i wedi dysgu a chael profiad o drwy gydol fy amser gyda'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ac rwy'n gobeithio bod y gymuned wedi gweld fy mod yn edifarhau am beth ddigwyddodd."*

*Mewn digwyddiad cyhoeddus i lansio'r ffilm, o flaen y cyfryngau a phobl bwysig leol, dywedodd y cwmni rheilffordd: "roedd yn faint gweithio gyda'r bobl ifanc hynny,"* dywedodd y cynhyrchydd: *"fe helpodd hyn droi negyddoldeb ac ofn yn greadigrwydd a gallu cynhyrchu",* a dywedodd un o'r bobl ifanc, wedi ymgymryd â gwaith gwneud yn iawn: *"Dydw i byth wedi teimlo'n dda am fi fy hun o'r blaen".*

Fe dderbyniodd hyn cymaint o sylw cadarnhaol yn y wasg, gan gynnwys cydnabyddiaeth o'r rôl bositif a chwaraewyd gan bobl ifanc gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid.

## 9. Hyder dedfrydwyr

Mae hyder dedfrydwr yn hanfodol os yw gorchmynion atgyfeirio am gyflawni'u hamcanion, yn enwedig fel dewis amgen i'r ddalfa. Mewn achosion cymwys, ble mae'r trothwy ar gyfer y ddalfa yn cael ei bodloni, y dewisiadau eraill yw gorchymyn atgyfeirio neu ddedfryd o gyfnod yn ddalfa. Mewn rhai achosion eraill, mae gan ddedfrydwyr ddewis rhwng gorchymyn atgyfeirio a gorchymyn adsefydlu ieuenctid. Byddai diffyg hyder yn peryglu llai o ddefnydd o orchmynion atgyfeirio mewn achosion addas. Yn yr un modd, os yw aelodau paneli troseddau ieuenctid yn deall gwaith y llysoedd ieuenctid, dylai ei helpu i sicrhau bod eu gwaith yn cydweddu hynny'n dda.

Mae'r bennod hon yn archwilio a oedd dedfrydwyr yn deall gorchmynion atgyfeirio a phaneli troseddau ieuenctid ac â hyder ynddynt, ac a oedd digon yn cael ei wneud i gynnal a datblygu hyder.

**Sut arolygom hyn**

Ym mhob ardal, fe siaradom ag un cynrychiolydd neu fwy o'r fainc ieuenctid leol ac i reolwyr y Tîm Troseddau Ieuenctid. Fe archwiliom dystiolaeth ddogfennol. Fe ofynnom hefyd i aelodau paneli troseddau ieuenctid am eu dealltwriaeth o waith y llysoedd.

Fe gyfarfuom â chynrychiolwyr o Bwyllgor Llysoedd Ieuenctid Cymdeithas yr Ynadon. Roedd y gymdeithas wedi cynnal arolwg gyda'i aelodau i gael eu barn, gan ddefnyddio meini prawf yr arolygiad. Derbyniwyd ymatebion gan aelodau mewn 78% o ganghennau'r gymdeithas ledled Cymru a Lloegr.

9.1 Fe fynegwyd hyder yng ngwaith y Timau Troseddau Ieuenctid gan bob dedfrydwr i ni gwrdd â hwy. Yn aml, roedd hyn yn seiliedig ar ddiffyg hyder ehangach yn y Tîm Troseddau Ieuenctid yn hytrach na dealltwriaeth benodol o orchmynion atgyfeirio. Roedd derbyniad cyffredinol bod dim digon yn cael ei wneud i ddatblygu neu gynnal eu dealltwriaeth o orchmynion atgyfeirio. Roedd sylwadau yn yr arolwg yn dangos nad oedd dedfrydwyr bob tro'n deall yn ddigon da beth roedd gorchmynion atgyfeirio yn ceisio'u cyflawni a sut roedd Timau Troseddau Ieuenctid yn ceisio gwneud i hynny ddigwydd. Roedd rhai ynadon yn eu hystyried fel yr opsiwn meddwl er, gydag eithriad cyrffyw a fonitrir yn electronig, mae gorchymyn atgyfeirio yn aml yn gallu cynnwys yr un rheoliadau ac ymyriadau â gorchymyn adsefydlu ieuenctid. Mae hyn yn dangos eto bod dim digon o ddealltwriaeth o'r gorchmynion hyn. Mynegodd un ynad y farn: *"mae dadl dros well cyswllt rhwng y llysoedd a Thimau Troseddau Ieuenctid er mwyn creu fforwm ble mae dadl adeiladol yn gallu digwydd er mwyn cynyddu a ffrwydro rhai o'r mythau/canfyddiadau presennol [am orchmynion atgyfeirio]."* Cytunwn.

### Cyfathrebu rhwng dedfrydwyr ac aelodau'r panel troseddau ieuenctid

9.2 Roedd mwyafrif y dedfrydwyr yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth perthnasau gwaith agosach a gwell cyfathrebu rhyngddyn nhw ac aelodau'r paneli troseddau ieuenctid. Mynegodd bron i ddau draean y farn bod angen gwella'r trefniadau hyn. Roedd cytundeb cyffredinol y byddai gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd yn helpu datblygu hyder ac arwain at waith mwy effeithiol. Roedd aelodau paneli'n teimlo'n debyg.

9.3 Roedd pob Tîm Troseddau Ieuenctid yr ymwelom â hwy yn cyfrannu at un fforwm neu fwy yn rheolaidd er mwyn cysylltu â dedfrydwyr; er enghraifft, grwpiau defnyddwyr llys,

presenoldeb mewn cyfarfodydd y panel llys ieuenctid, diwrnodau agored a digwyddiadau hyfforddiant ar y cyd. Yn gyffredinol, roedd cydnabyddiaeth na fod y rhain yn ddigon er mwyn sicrhau bod potensial gorchmynion atgyfeirio yn cael ei rannu a'i deall. Fe welsom gyfleoedd penodol wedi'u trefnu i ddelio gyda gwaith gorchymyn atgyfeirio mewn dwy ardal.

**Esiampl o arfer nodedig: cyswllt gyda dedfrydwyr**

**Grŵp Cyswllt Gorchmynion Atgyfeirio Gogledd Llundain**

Yng Ngogledd Llundain, daeth pedwar Tîm Troseddau Ieuenctid a oedd yn gweithio yn Llys Highbury ynghyd â'r llys i lunio Grŵp Cyswllt Gorchmynion Atgyfeirio Gogledd Llundain. Cynhaliwyd hwn yn ystod oriau gwaith er mwyn annog presenoldeb. Daeth y Timau Troseddau Ieuenctid ag esiamplau o arfer da i'w rhannu, ynghyd â data ar ganlyniadau a chydymffurfiad. Mynychwyd y fforwm gan Farnwr Rhanbarth, cynghorwyr cyfreithiol, cadeirydd y panel ieuenctid a detholiad o ynadon, gwirfoddolwyr y panel troseddau ieuenctid a staff y Timau Troseddau Ieuenctid. Roedd yn ddefnyddiol rhannu arferion a gwybodaeth ac roedd yn helpu gyda chynyddu hyder.

**Grŵp Llywio Gorchmynion Atgyfeirio Wiltshire**

Yn Wiltshire, cynhaliwyd Grŵp Llywio Gorchmynion Atgyfeirio pedair gwaith y flwyddyn a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Troseddau Ieuenctid, dedfrydwyr ac aelodau'r panel troseddau ieuenctid. Roedd y cyfle gwerthfawr hwn i greu cysylltiadau yn helpu i gynyddu hyder a dealltwriaeth.

9.4 Er bod y ddau fforwm a ddisgrifir uchod yn werthfawr, roedd y dysgu gan fwyaf yn gyfyngedig i'r sawl a oedd yn bresennol. Roedd angen talu mwy o sylw i rannu'r dysgu a datblygu hyder y sawl nad oedd wedi mynychu. Dywedodd cadeirydd mainc wrthym fod cyfathrebu rhwng cadeiryddion a'u cydweithwyr yn cael ei wneud yn fwyfwy aml yn electronig, felly os oedd Timau Troseddau Ieuenctid yn darparu briffiau electronig rheolaidd, roedd y rhain yn gallu cael eu hanfon ymlaen at yr holl aelodau. Soniodd un arall am eiddgarwch dedfrydwyr i gasglu gwybodaeth a adawyd yn yr ystafelloedd ymwisgo, sy'n awgrymu y gellid gwneud mwy o hyn.

9.5 Un o'r prif bryderon i ddedfrydwyr oedd nad oedd ganddynt lawer o ymwybyddiaeth o gynnydd pobl ifanc a oedd yn destun gorchymyn atgyfeirio, naill ai ar y lefel unigol neu facro (data) - oni bai am pan roedd pobl ifanc yn aildroseddu, yn torri amod neu'n dychwelyd ar gyfer diddymiad cynnar. Dywedodd dedfrydwyr eu byddant yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth am y canlyniadau a oedd wedi cael eu cyflawni mewn gorchmynion atgyfeirio; gan gynnwys ystadegau sylfaenol fel nifer y cychwynwyr, y paneli a gynhaliwyd, y nifer a oedd wedi cwblhau'n llwyddiannus, toriadau a diddymiadau cynnar. Byddent hefyd yn gwerthfawrogi astudiaethau achos yn cyflwyno dysgu neu ganlyniadau o achosion unigol. Fe sonion nhw wrthym fod pob un o'r rhain yn helpu cynyddu hyder, gan gynnwys bod yn agored am pan nad oedd pethau wedi mynd cystal a beth oedd wedi cael ei ddysgu o hynny. Roedd dedfrydwyr hefyd yn awyddus i ddeall ystent ymglymiad dioddefwyr mewn gorchmynion atgyfeirio, oherwydd roeddent yn adnabod bod hyn yn hanfodol i gyflawni'u hamcanion adferol.

### Arsylwi gwaith ei gilydd

9.6 Roedd nifer fechan o aelodau'r panel wedi arsylwi llys ieuenctid. Fe ddarganfuom fod hyn o werth mawr wrth eu helpu i ddeall y broses roedd pobl ifanc wedi bod trwy cyn y panel. Roedd yn eu helpu i ddeall sut roedd eu rôl yn wahanol i un y llys. Roedd weithiau'n

aneglur pa mor dda roedd aelodau eraill y panel yn deall hyn, fel y dynodwyd gan y sylwadau canlynol a fynegwyd gan aelodau'r panel: *"mae angen i ni sicrhau bod goblygiadau"* a: *"pryd rydym yn rhoi cosbau".* Byddai aelodau'r panel yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i arsylwi gwaith y llys a siarad â dedfrydwyr. Dylai hyn fod yn rhan o'r hyfforddiant ar gyfer pob aelod o baneli troseddau ieuenctid.

**Esiampl o arfer nodedig: gwahodd gwirfoddolwyr i arsylwi llys ieuenctid**

Yn Wiltshire, mae aelodau gwirfoddol o'r panel yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i arsylwi'r llys ieuenctid yn gweithio. Mae aelodau'r panel yn cael eu hatgoffa o'r cyfle hwn yn y cylchlythyr chwech misol.

9.7 Fe welsom gyfle cyfyngedig o ddedfrydwyr arsylwi neu ddeall gwaith y paneli. Yn arolwg yr ynadon, ychydig iawn o atebwyr dywedodd eu bod wedi cael cynnig y cyfle hwn. Dywedodd dedfrydwyr wrthym y byddent yn gwerthfawrogi hyn ac y byddai'n ddefnyddiol wrth drafod yn y llys, beth fyddai derbyn gorchymyn atgyfeirio yn golygu mewn gwirionedd. Mynegwyd pryder am y risgiau sy'n gysylltiedig â mynychu paneli os ydynt wedi dedfrydu'r bobl ifanc hynny, neu os gallent fod yn rhan o'u profi neu eu dedfrydu yn y dyfodol, a hefyd ar effaith deinamig y panel os byddai dedfrydwr yn bresennol. Deallwn y pryderon hynny a chydnabod bod angen eu rheoli'n ofalus. Un awgrym oedd y syniad o recordio panel, gan guddio hunaniaeth y person ifanc a defnyddio hwn mewn digwyddiad hyfforddiant i ddedfrydwyr.

**Esiampl o arfer nodedig: chwarae rôl yn helpu dedfrydwyr i ddeall paneli**

Roedd Wakefield wedi rhedeg digwyddiad hyfforddiant i ddedfrydwyr ble roedd gofyn iddynt chwarae rôl person ifanc, rhiant/gofalwr neu ddioddefwr mewn panel, gydag aelodau gwirfoddol y panel yn rhedeg y panel.

### Ymwybyddiaeth o ymwneud cymunedol mewn gorchmynion atgyfeirio

9.8 Ac eithrio Conwy a Sir Ddinbych, nid oedd gan y dedfrydwyr y siaradom â hwy dealltwriaeth dda o sut roedd y gymuned yn buddio o orchmynion atgyfeirio trwy wneud yn iawn. Fe sonion nhw y byddai hyn yn ddefnyddiol, er mwyn cynyddu'u hyder yn gyffredinol ac i wella'u gallu i esbonio beth roedd gorchymyn atgyfeirio yn ei olygu. Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, roedd yr arweinydd gwneud iawn yn y Tîm Troseddau Ieuenctid yn mynychu cyfarfod maint llys ieuenctid dwywaith y flwyddyn i friffio dedfrydwyr ar eu prosiectau a'r buddion a ddaw gyda'r rhain i'r gymuned. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

### Gorfodaeth, diddymiad cynnar ac adborth

9.9 Fe welsom ddefnydd da'n cael ei wneud o ddychwelyd i'r llys i ystyried diddymiad cynnar o'r ddedfryd, o ganlyniad i gynnydd da. Roedd sylw wedi cael ei roi i'r posibiliad hwn ym mhob achos perthnasol a arolygom. Mae ei defnydd effeithiol yn gallu cyflwyno neges bwysig i bobl ifanc am eu cynnydd tuag at fywyd cadarnhaol a rhag-gymdeithasol.

9.10 Cawsom ein calonogi i ddarganfod bod defnydd priodol yn cael ei wneud o brosesau gorfodi, a thrafodion cyfreithiol mewn achosion o doriad, ble nad oedd pobl ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y ddedfryd. Roedd hyn yn cael ei wneud yn ddigon da ym mhob achos perthnasol a arolygom heblaw am un. Mae cyfathrebu da am brosesau mewn achosion o doriad hefyd yn bwysig i hyder dedfrydwyr.

**Esiampl o arfer nodedig: dylanwad panel ar ysgogi trafodion cyfreithiol mewn achos o doriad**

Roedd gan Chloe gefndir teuluol dryslyd. Oherwydd y dryswch parhaol fe drafferthodd i setlo i mewn i'w gorchymyn. Roedd ganddi broblemau cydymffurfio, wedi dychwelyd i'r llys ac yn debygol o dorri ei hamodau eto. Yn y pen draw, fe ddangosodd hi arwyddion o ddechrau ymrwymo. Yn dilyn ei methiant nesaf i gydymffurfio, fe benderfynodd y panel, ar ôl trafodaeth hir, i beidio ag ysgogi camau oherwydd toriad. Cafodd y cyfiawnhad ei gofnodi a'i esbonio'n glir.

Dywedodd Chloe: *"nhw oedd y bobl gyntaf a oedd wedi gwneud rhywbeth oherwydd eu bod yn caru amdanaf a dewis osgoi fy nghosbi hyd yn oed pan roedd ganddynt y cyfle i wneud hynny. . Fe gafodd wir effaith arnaf".*

Dywedodd hi fod y gweithiwr gwneud yn iawn yn ddiweddar wedi'i chymryd naill ochr pan roedd hi wedi cyrraedd y gwaelod ac esbonio sut roedd angen iddi hi ymddiried yn y bobl a oedd eisiau ei helpu hi a sut roedd angen iddi hi gymryd rheolaeth yn hytrach na beio eraill: *"...ac yn fuan wedyn, digwyddodd hynny, roedd yn wych".*

Fe arweiniodd cyfle a gymerwyd 'ar hap' a gweithrediadau'r panel ar y cyd at newid sylweddol yn ymagwedd Chloe.

### Deddfwriaeth

9.11 Yn aml, nid oedd dealltwriaeth dda o'r cyswllt rhwng gorchmynion atgyfeirio a chofnodion troseddol, gan gynnwys gan bobl ifanc. Cyflwynwyd tystiolaeth anecdotaidd ble roedd pobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael eu hannog i bledio'n euog er mwyn osgoi dedfryd lymach, ar y sail y byddai'r gollfarn yn dod i ben, ond heb ddealltwriaeth o'r goblygiadau llawn o'u cofnod troseddol. Roedd hyn hefyd yn achosi anhawster i reolwyr achos wrth ddechrau gweithio gyda phobl ifanc a oedd wedi pledio'n euog ac yna'n datgan eu dieuogrwydd. Mynegwyd pryder hefyd am yr anghysondeb rhwng person ifanc a oedd wedi cael ei osod ar y gofrestr troseddwyr rhyw ac yn cael gwybod y byddai'r gollfarn yn dod i ben ar ôl rhyddhau, ond a oedd wedyn yn destun effaith y cofrestriad am gyfnod sylweddol wedi hynny. Dylid ystyried mynd i'r afael â'r diffyg eglurder hwn.

9.12 Nid oeddem yn gallu dod o hyd i gyfarwyddyd clir ar y ffactorau i'w hystyried wrth gynnig gorchymyn atgyfeirio ychwanegol yn hytrach na gorchymyn adsefydlu ieuenctid, fel sydd bellach yn bosib. Roedd dedfrydwyr a Thimau Troseddau Ieuenctid yn cydnabod hyn ac yn credu y gallai cyfarwyddyd o ran pryd allai gorchymyn atgyfeirio dilynol fod yn addas gyfrannu at gynnydd mewn hyder, oherwydd gellir wedyn ei weld yn fwy clir fel dewis amgen yn hytrach nag un ar raddfa is.

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn; ni fyddai'r arolygiad hwn wedi bod yn bosib heb eu cydweithrediad.

Hoffem ddiolch, yn benodol, i ddefnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr, staff ac eraill o'r ardaloedd ymwelom â hwy ar gyfer gwaith maes yr arolygiad - Conwy a Sir Ddinbych, Lerpwl, Stoke-on-Trent, Sutton, Wakefield, Wiltshire – a'r sawl yn Camden ble gynhaliom arolygiad peilot. Hoffem ddiolch hefyd i gynrychiolwyr y sefydliadau canlynol a gyfrannodd at yr arolygiad - Cymdeithas yr Ynadon, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Y Cyngor Cyfiawnder Adferol, Cymorth i Ddioddefwyr, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru.

| | |
|---|---|
| **Prif Arolygydd** | Ian Menary, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Y Tîm Arolygu** | Joe Coleshill, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Keith Humphreys, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Amanda Paterson, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Lyndon Lewis, *Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf* |
| **Gwasanaethau Cefnogaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Stephen Hunt, *Rheolwr Gwasanaethau Cefnogaeth*<br>Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil Cynorthwyol*<br>Lynne Osborn, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogaeth* |
| | Alex Pentecost, *Rheolwr Cyfathrebu* |
| | Amy Williams, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Alan MacDonald, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |

## Atodiad 1: Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a chod ymarfer

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

**www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation**

Corff cyhoeddus yw'r arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n cwympo o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:


*Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi*
*1st Floor, Manchester Civil Justice Centre*
*1 Bridge Street West*
*Manceinion M3 3FX*